# Y RHYFEL BYD CYNTAF 1914-18

## Prosiect Cofebion Rhyfel Powys

19 14-18 100

Pecyn Cymunedol





dechrau

Yn ôl i'r cyflwyniad



Powys
Brecon Beacons National Park
heritage treftadaeth
Lottery Funded
Ariennir gan y Loteri
Cadw
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn

Mae'r pecyn hwn yn helpu cymunedau lleol i gofnodi'r cofebion sydd ganddynt i'r Rhyfel Byd Cyntaf ac i ymchwilio iddynt.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhyfel, am y gwahanol fathau o gofebion ac am y ffordd y gall cymunedau gofnodi eu cofebion, ymchwilio iddynt a gofalu amdanynt. Mae hefyd yn cynnwys astudiaethau achos o bum cymuned sydd wedi gwneud ymchwil ac wedi cynhyrchu deunyddiau diddorol iawn am eu cofebion ac am y bobl sy'n cael eu cofio.

Mae'r pecyn wedi ei rannu'n saith adran:


1 **Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf**

2 **Y Rhyfel Byd Cyntaf**
- Gwrthdaro gwirioneddol fyd-eang
- Sut y dechreuodd y cyfan?
- Hanes y rhyfel yn fyr iawn
- Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf
- Dynion Powys
- Effaith y rhyfel ar gymunedau a'r bobl a ddaeth trwyddi
- Pam y codwyd cynifer o gofebion?
- Cofebion ym Mhowys

3 **Cofebion rhyfel**
- Beth yw cofeb ryfel?
- Hanes cofebion rhyfel
- Mathau o gofebion rhyfel
- Symboliaeth cofebion
- Epitaffau
- Deunyddiau cofebion rhyfel
- Pwy sy'n cael eu coffáu ar gofebion?
- Sut y cofnodwyd yr enwau

4 **Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt**
- Cyflwr cofebion
- Paratoi cynllun cynnal a chadw
- Cynnwys y gymuned
- Grantiau

5 **Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon**
- Darganfod mwy am bobl y cofebion
- Syniadau ar gyfer ymchwilio
- Gwefannau defnyddiol
- Llefydd i gael gwybod rhagor
- Awgrymiadau gan yr arbenigwyr
- Catrodau Cymru
- Casglu straeon lleol

6 **Beth i'w wneud â'r wybodaeth**
- Taflen
- Panel dehongli
- Arddangosfa
- Llwybr Rhyfel Byd Cyntaf
- Cystadleuaeth farddoni
- Digwyddiadau barddoniaeth a cherddoriaeth

7 **Astudiaeth achos**
- Grŵp Hanes Prifysgol y Drydedd Oes Aberhonddu
- Grŵp Hanes Lleol y Drenewydd
- Llyfrgell Ystradgynlais
- The YEARGroup
- L.L.A.N.I. Ltd



Cliciwch ar y tagiau isod i symud rhwng yr adrannau …

yn ôl i'r cyflwyniad

Y dudalen nesaf

# 1 Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf

Mae Cyngor Sir Powys yn coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf gyda Phrosiect Cofebion Rhyfel Powys, sy'n anrhydeddu'r aberth a wnaeth pobl Powys yn ystod y rhyfel. Mae'r prosiect yn annog pobl leol i ddarganfod mwy am eu cofebion rhyfel ac am y bobl sy'n cael eu coffáu arnynt. Mae'r pecyn hwn yn rhan bwysig o'r prosiect. Mae'n helpu cymunedau i gofnodi'r cofebion ac ymchwilio i'r straeon y tu ôl iddynt ac mae'n rhoi cyngor ymarferol ar sut i ofalu am y cofebion gwerthfawr hyn. Ariennir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Sir Powys, Cadw ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Dechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar 28 Gorffennaf 1914, gyda Phrydain yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Almaen ar 4 Awst. Byddai'n datblygu i fod yn un o ryfeloedd mwyaf costus hanes o ran bywydau ac economïau. Mae gan bron bawb yng Nghymru o leiaf un perthynas a gafodd ei effeithio'n uniongyrchol gan y rhyfel, ac mae pob un ohonom yn byw gyda'i effeithiau hirdymor.

Mae canmlwyddiant y rhyfel yn amser i goffáu'r rhai a ymladdodd ac a fu farw, a'r rhai a ymladdodd ac a ddychwelodd i gymdeithas a oedd wedi'i newid yn sylfaenol gan y rhyfel. Mae'n gyfle i feddwl am straeon personol profedigaeth a galar, ac am oroesi yng nghanol caledi mawr. Mae hefyd yn gyfle i ystyried y rhai a ddaeth adref wedi eu heffeithio'n ddwfn gan eu profiadau – rai ohonynt am weddill eu hoes.

Mae'r cofebion yn ein cymunedau'n ganolbwynt ar gyfer cofio a choffáu'r rhyfel. Mae'r cofio blynyddol yn cadw'r atgofion am y rhyfel ac am y rhai a wasanaethodd ynddo yn fyw. Y tu ôl i'r rhestrau enwau, mae straeon sy'n paentio lluniau byw o wahanol agweddau ar y rhyfel – llawer ohonynt yn diflannu o'n hymwybyddiaeth dorfol erbyn hyn. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r ymladd ar Ffrynt y Gorllewin yn Ewrop ond mae llawer llai'n gwybod bod gwledydd yn y Dwyrain Canol, Gogledd Affrica, de a gogledd America ac Asia wedi cymryd rhan hefyd.

Mae'r canmlwyddiant yn gyfle i ailennyn diddordeb yn y cofebion a'r rhai sy'n cael eu coffáu arnynt, yn effeithiau ehangach y rhyfel ar gymdeithas ledled y byd ac yn nylanwad y rhyfel ar wleidyddiaeth a ffiniau ledled Ewrop ac Asia.

Rhowch wybod i ni, Tîm Prosiect Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys, am unrhyw broject rydych yn cymryd rhan ynddo sy'n gysylltiedig â chofio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae gennym lawer o adnoddau ac efallai y gallwn helpu. Cysylltwch â ni drwy:

- E-bost: warmemorials@powys.gov.uk
- Post: Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG.
- Ffôn: 0845 6027030 / 01597 827460

Cewch ragor o wybodaeth am Broject Cofebion Rhyfel Powys yma

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

# ② Y Rhyfel Byd Cyntaf

## Gwrthdaro gwirioneddol fyd-eang





Enw arall arno yw 'y Rhyfel Mawr' – ac roedd yn fawr o ran ei ehangder, nifer y bobl yr effeithiwyd arnynt a hyd a lled ei ganlyniadau erchyll. Cymerodd bron 70 miliwn o filwyr, morwyr ac awyrenwyr ran; ni ddaeth 10 miliwn ohonynt fyth adref. Ni fu erioed y fath ddioddef o'r blaen.

Chwaraeodd yr Ymerodraeth Brydeinig ran flaenllaw yn y rhyfel, a chollodd bron i filiwn o bobl, rhwng aelodau'r lluoedd a sifiliaid. Anafwyd dros 1.5 miliwn.

Yng Nghymru, recriwtiwyd 272,924 o ddynion a menywod a rhestrir tua 35,000 fel rhai a laddwyd neu a gollwyd yn yr ymladd. Ym Mhowys, fel mewn mannau eraill, codwyd cofebion mewn trefi a phentrefi i gofio am y rhai a syrthiodd.








## Sut y dechreuodd y cyfan?

Roedd map 'gwleidyddol' Ewrop yn 1914 yn wahanol iawn i Ewrop heddiw.




www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

Roedd ymerodraethau mawr yr Almaen, Awstria-Hwngari a Rwsia yn dal yn awyddus i ennill rhagor o dir ond roedd dylanwad Ymerodraeth Otomanaidd Twrci yn Ewrop yn gwanhau. Roedd Prydain a Ffrainc yn canolbwyntio ar eu hymerodraethau tramor enfawr ond roeddent hefyd yn poeni fwyfwy am y cystadlu am bŵer ymysg cyn-gynghreiriaid a gelynion yn Ewrop. Roedd yr Eidal a Sbaen hefyd yn wyliadwrus gan fod yr Almaen yn gwario symiau enfawr mewn ras arfau na welwyd ei thebyg o'r blaen wrth adeiladu byddin – a llynges (fel Prydain).

Roedd Ewrop yn grochan peryglus ar fin ffrwydro. A diwedd Mehefin 1914, gwelwyd y gwreichion cyntaf.

Yn Sarajevo, rhan o Ymerodraeth Awstria bryd hynny, lladdwyd yr Arch-ddug Franz Ferdinand, etifedd yr ymerodraeth, gan genedlaetholwr o Bosnia. Fis yn ddiweddarach, er gwaethaf trafodaethau brys ymysg pwerau mwyaf Ewrop, paratodd Awstria i feddiannu Serbia a oedd, yn ei barn hi, wedi chwarae rhan yn y llofruddiaeth. O ganlyniad i hyn, gwelwyd Rwsia'n cynnull ei milwyr i ymosod ar Awstria er mwyn cefnogi Serbia. Wedyn cyhoeddodd yr Almaen ryfel yn erbyn Rwsia am fod arni ofn ei huchelgais, ac yn erbyn Ffrainc bron yn syth wedyn. Dechreuodd y gwahanol fyddinoedd orymdeithio.

Ar 4 Awst, dangosodd Prydain ei chefnogaeth i Ffrainc (yr 'hen elyn', yn eironig) a Rwsia drwy gyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Almaen, ac ni fyddai'r byd fyth yr un fath wedyn. Ni fu'r ymadrodd 'uffern ar y ddaear' erioed yn nes ati wrth i fwy a mwy o wledydd gael eu tynnu i mewn i'r ymrafael dros y blynyddoedd. Roedd y sefyllfa derfynol yn gymhleth fel y gwelwch o'r tabl.

| Pwerau'r Cynghreiriaid (Yr Entente) |
|---|
| Andorra |
| Gwlad Belg |
| Brasil |
| Ymerodraeth Prydain, yn cynnwys Teyrnes Unedig Prydain Fawr ac Iwerddon, Awstralia, Canada, India, Malta, Rhodesia, Newfoundland, New Hebrides, Seland Newydd, De Affrica |
| Tsieina |
| Costa Rica |
| Llengoedd Tsiecoslofacia |
| Ffrainc |
| Gwlad Groeg |
| Guatemala |
| Haiti |
| Honduras |
| Yr Eidal |
| Japan |
| Liberia |
| Montenegro |
| Nepal |
| Nicaragua |
| Panama |
| Portiwgal |
| Romania |
| Rwsia |
| San Marino |
| Serbia |
| Siam |
| Y Taleithiau Unedig yn cynnwys Alaska, Hawaii, Philippines a Puerto Rico |

| Y Pwerau Canol |
|---|
| Ymerodraeth Awstria-Hwngari yn cynnwys Awstria, Bosnia ac Herzegovina, Croatia, Y Weriniaeth Tsiec, Hwngari, rhannau o ogledd-ddwyrain yr Eidal, gogledd Serbia, rhannau o wlad Pwyl, Slofacia, Slofenia a'r Wcráin |
| Azerbaijan a rhannau o Armenia |
| Bulgaria yn cynnwys rhannau o Wlad Groeg a Macedonia |
| Y Wladwriaeth Dderfaidd (rhannau o Somalia) |
| Ymerodraeth yr Almaen: yn cynnwys yr Almaen, Burundi, Cameroon, rhannau bychain o China, rhannau o Gabon, Ghana, Ynysoedd Marshall, Taleithiau Ffederal Micronesia, Namibia, gogledd-ddwyrain Nigeria, Palau, gogledd Papua Guinea Newydd, rhannau o Wlad Pwyl, Gweriniaeth y Congo, Rwanda, Samoa, tir mawr Tanzania a Togo |
| Jabal Shammar yn cynnwys y rhan fwyaf o Saudi Arabia a rhannau o Irac a Gwlad yr Iorddonen |
| Yr Ymerodraeth Otomanaidd yn cynnwys Israel, Lebanon, rhannau o Irac a Gwlad yr Iorddonen, Saudi Arabia, Syria a'r rhan fwyaf o Dwrci |

www.Powys.gov.uk


Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos



Ymerodraethau mawrion y Deyrnas Unedig, Ffrainc a Rwsia a ffurfiodd luoedd arfog Pwerau'r Cynghreiriaid a, dros bedair blynedd y rhyfel, ymunodd mwy na 30 o wledydd eraill â nhw, o Andorra i Japan ac – yn fwyaf hanfodol – UDA. Yn erbyn y Cynghreiriaid roedd tair ymerodraeth: Awstria-Hwngari, yr Almaen a Thwrci (yr Ymerodraeth Otomanaidd). Cefnogwyd nhw gan sawl gwlad arall. Roedd gan y Cynghreiriaid fwy o filwyr o lawer na'r gelyn. Roedd Prydain yn dibynnu'n fawr ar fyddinoedd yr hyn a alwn heddiw'n Gymanwlad.

Roedd gwledydd o bob cyfandir poblog yn y byd yn cymryd rhan. Fodd bynnag, roedd rhai gwledydd Ewropeaidd wedi aros yn swyddogol niwtral – neu, yn dechnegol, heb fod yn rhan o'r brwydro. Dyna oedd hanes yr Iseldiroedd a gwledydd Sgandinafia i gyd. Er hynny, nid oedd yr un rhyfel cyn hynny wedi sugno cynifer o wledydd i ymladd, nac wedi lladd cynifer o bobl.




## Hanes y rhyfel yn fyr iawn




Mae llawer wedi'i ysgrifennu am y rhyfel ers i'r gwrthdaro ddechrau, ac ychwanegir ato yn ddyddiol, bron. Mae yna lawer o gofnodion swyddogol i'w gweld ar-lein, adroddiadau cyfoes rif y gwlith gan newyddiadurwyr ac arbenigwyr, miloedd o lyfrau ac erthyglau gan awduron amlwg neu gyn-filwyr a myrdd o gasgliadau o ddogfennau ac effemera'n cael eu dal yn genedlaethol ac yn lleol gan lyfrgelloedd ac archifdai.
Yn ogystal, mae llu o raglenni radio a theledu wedi'u darlledu ac yn cael eu darlledu o hyd, ac mae llawer o ddramâu a ffilmiau wedi'u cynhyrchu i addysgu neu ddifyrru.



Efallai mai'r adroddiadau mwyaf teimladwy o'r rhyfel ei hun yw gweithiau'r beirdd a'r awduron, yn cynnwys awduron pwysig o Gymru, llythyrau dynion a merched a oedd yn gwasanaethu ac sydd ar gael i'w gweld erbyn hyn, a ffotograffau mewn gwahanol gasgliadau. Maent yn cyfleu erchyllterau, colledion, buddugoliaethau achlysurol,

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

# Y rhyfel mewn geiriau


Ysbrydolodd y Rhyfel Byd Cyntaf lawer o feirdd i greu eu gweithiau gorau. Un o'r rhai enwocaf oedd Wilfred Owen, dyn o dras Cymreig a Seisnig. Yn Ebrill 1917 fe'i trawyd gan siél yn ffrwydro a cafodd ddiagnosis o neurasthenia neu 'shell shock' yn ddiweddarach. Yn yr ysbyty, cyfarfu â bardd rhyfel arall, Siegfried Sassoon, dyn a gafodd ddylanwad mawr ar arddull ei ysgrifennu. Ar ôl dychwelyd i wneud gwaith ysgafn gyda'i gatrawd, treuliodd amser yn cyfansoddi neu'n diwygio nifer o'i gerddi mwyaf adnabyddus cyn mynd yn ôl i'r Ffrynt yn Awst 1918. Wythnos yn unig cyn i'r rhyfel ddod i ben fe'i saethwyd a'i ladd wrth arwain ei ddynion, a dyfarnwyd y Groes Filwrol iddo am hynny. Mae ei waddol barddol, yn rhamantaidd ac yn realistig, yn ein hatgoffa o drychinebau rhyfel.

Ymysg yr enwogion eraill mae Saunders Lewis, bardd, dramodydd a chenedlaetholwr Cymreig tanbaid, a fu'n gwasanaethu fel swyddog gyda Chyffinwyr De Cymru yn ystod y rhyfel, a bardd a dramodydd arall, Syr Albert Evans-Jones, a adwaenir yn amlach na pheidio wrth ei enw barddol, Cynan – yr unig un i'w ethol yn Archdderwydd ddwywaith.

Efallai mai'r mwyaf ingol o'r cwbl oedd Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans o Drawsfynydd), bardd rhamantaidd a oedd yn adnabyddus yn barod ac a ysgrifennodd nifer o gerddi am ofnadwyedd rhyfel. Fe'i lladdwyd yn Passchendaele bythefnos yn unig ar ôl cyflwyno'i awdl, *Yr Arwr* i'r Eisteddfod Genedlaethol. Ar ôl iddo farw, enillodd y Gadair sydd yn dal i'w gweld yn yr Ysgwrn, fferm y teulu yn Eryri. Mae ei garreg fedd yn Boezinge, gorllewin Fflandrys, yn cynnwys y geiriau ychwanegol *Y Prifardd Hedd Wyn*.

Roedd R Williams Parry, a oedd yn y fyddin o 1916 i 1918, wedi dod yn amlwg fel bardd pan enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1910. Yn un o'i weithiau diweddarach, Englynion Coffa Hedd Wyn, mae'n marwnadu Ellis Evans ac yn dweud:

*Gadair unig ei drig draw! -- Ei dwyfraich,*
*Fel pe'n difrif wrandaw,*
*Heddiw estyn yn ddistaw*
*Mewn hedd hir am un ni ddaw.'.*


Tents issued. Battalion on front line and roads. Commencement of 2nd. Line.

25th. CHRISTMAS DAY. Half Holiday.

26th. A and D Companies temporarily attached to 7th. Bn. S.W.B. and moved to Camp immediately behind HEDAN HILL. B and C Companies on roads.


cyfeillgarwch a meithder y rhyfel yr oedd sawl un yn credu y byddai 'ar ben erbyn y Nadolig'. Mae'r rhyngrwyd yn stôr ragorol o wybodaeth, barn, a dadansoddiadau sy'n tynnu ar bob math o ffynonellau.

Nid dim ond yn ffosydd Ffrainc a Gwlad Belg yr ymladdwyd y rhyfel, er bod hynny'n un o'r agweddau mwyaf erchyll. Roedd y gwrthdaro estynedig ar Ffrynt y Dwyrain rhwng Rwsia a'r Almaen, ymgyrch aflwyddiannus y Cynghreiriaid yn Gallipoli yn y Dardenelles a'u hymgyrch yn y dwyrain canol gynddrwg bob tamaid. Nid ar y tir yn unig yr ymladdwyd y rhyfel ond ar y môr hefyd – ac yn yr awyr. Ac effeithiodd ar filiynau o sifiliaid oedd yn digwydd bod yn byw yn y lle anghywir. Bu farw milwyr di-rif o salwch neu newyn yn ogystal ag o effaith yr ymladd ac mae ffawd miloedd ar filoedd o filwyr, morwyr ac awyrenwyr yn parhau'n ddirgelwch.

Yr hyn y gallwn ei nodi yma yw bod cyfraniad uniongyrchol yr Ymerodraeth Brydeinig wedi dechrau pan laniodd milwyr Prydain yn Ffrainc ar 7 Awst i helpu byddin Ffrainc i atal yr Almaen rhag goresgyn Gwlad Belg. Daeth i ben pan arwyddwyd Cadoediad Compiègne (yn Ffrainc) a ddaeth i rym am 11am ar 11 Tachwedd 1918. Cydnabu'r Almaen fod Lluoedd y Cynghreiriaid wedi ei






Y dudalen nesaf

threchu gyda chymorth mawr gan UDA o 1917 ymlaen. Dyma'r dyddiad a'r amser ym mis Tachwedd sy'n cael eu cofio bob blwyddyn wrth gofebion lleol a chenedlaethol.

Cofnodir yr hyn a ddigwyddodd yn ystod pedair blynedd a thri mis y Rhyfel mewn llu o gyhoeddiadau, rhai'n fras iawn ac eraill yn eithriadol o fanwl, ar ffurf print, graffeg a digidol. Fe'i cofnodir hefyd, yn anffurfiol, mewn cant a mil o ddyddiaduron a llythyron yr ysgrifennodd y milwyr at eu teuluoedd ar adegau tawel yn yr ymladd.

Un o'r ffynonellau mwyaf defnyddiol i'r rhai sydd am ddarllen yr hanes yn syml yw The First World War a gyhoeddwyd gan Usborne ar y cyd â'r Imperial War Museum. Mae yna wefan gysylltiedig hefyd.

*www.usborne.com/quicklinks*
*(chwiliwch am The First World War)*

Fe'i bwriadwyd ar gyfer cynulleidfa ifanc ond mae'n cyflwyno'r hanes mewn ffordd hawdd ei deall i bawb.

Fodd bynnag, i bob cymuned unigol, hanes pwysicaf y rhyfel yw'r hanes sy'n berthnasol i'w phobl ei hunan. Yng nghyd-destun y prosiect hwn, mae'n golygu hanes dynion Sir Drefaldwyn, Sir Faesyfed a Sir Frycheiniog, dynion a ymladdodd dros eu baner, a rhai ohonynt byth yn dod adref i'w mamwlad.

## Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Yn 1914, er bod Cymru wedi'i diffinio'n glir ar y map, roedd ei phroffil fel gwlad 'ar wahân' yn wahanol iawn i'w statws heddiw. Bryd hynny, i bob pwrpas, roedd yn rhan o Loegr, a bu felly ers bron i 500 mlynedd. Cyfeirid ati yn swyddogol fel 'Cymru a Mynwy' ac nid oedd anogaeth i siarad Cymraeg. Er hynny, roedd gan y rhan fwyaf o'r bobl synnwyr cryf o 'Gymreictod' ac roedd hyn yn arbennig o wir, am resymau amlwg, yn y Gymru Gymraeg.



Siroedd Cymru yn 1914

Roedd sgiliau a llafur dynion a merched yn niwydiannau trwm Cymru wedi cyfrannu'n sylweddol at economi a grym ymerodraeth Prydain. Roedd yn hollbwysig i lwyddiant y rhyfel eu bod yn parhau i gynhyrchu, gan ddarparu dur ar gyfer arfau a glo ar gyfer llongau. Felly hefyd y rhai a weithiai ar y tir, yn cynhyrchu bwyd i gynnal y boblogaeth, ac yn y melinau a'r ffatrïoedd arfau.

Pan gyhoeddodd Prydain ryfel yn erbyn yr Almaen a'i chynghreiriaid, roedd dynion ifanc Cymru'n ymhlith y rhai a daflodd eu hunain i frwydr na allent fyth ddychmygu ei chanlyniadau. Er bod glöwyr a gweithwyr

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon
Beth i'w wneud â'r wybodaeth
Astudiaeth achos

dur, a gweithwyr fferm hefyd i raddau, mewn swyddi 'neilltuedig', oedd yn golygu y gallent wasanaethu'r rhyfel orau drwy barhau i weithio, dewisodd llawer ymrestru ar gyfer gwasanaeth milwrol dros y môr.



Ym mhedair blynedd y rhyfel, recriwtiwyd 272,924 o ddynion a merched o Gymru, yn bennaf o siroedd poblog Morgannwg a Mynwy. I ddechrau, gwirfoddolwyr oeddent; ond erbyn 1916, roeddent dan orfodaeth i ymrestru fel llawer o bobl ifanc Lloegr, yr Alban ac Iwerddon – gwledydd a oedd i gyd, bryd hynny, yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Ymunodd dynion a merched â nhw o'r ymerodraeth – Canada, Awstralia a Seland Newydd, India a De Affrica.

Yn ôl cyfrifiad 1911, roedd poblogaeth Cymru ychydig o dan 2.5 miliwn, tua 5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig – fel y mae heddiw. Ar y cyfan, aeth ychydig dros un o bob deg o bobl Cymru i'r Rhyfel. Aeth dros un o bob pump o'r dynion. Cofnodwyd yn Llyfr Coffadwriaeth Cymru bod tua 35,000 wedi marw neu ar goll, sef tuag un o bob wyth o'r holl Gymry a aeth i ymladd, bron i 1.5% o'r boblogaeth gyfan. Dynion oedd y rhan fwyaf ond chwaraeodd merched ran allweddol hefyd, er enghraifft, wrth nyrsio a gyrru ambiwlansys.





Roedd effaith y rhyfel ar y gymuned yn anferthol, nid yn lleiaf colli niferoedd mawr o ddynion ifanc, galar eu teuluoedd a'u ffrindiau a'r newidiadau mawr yn nhrefn a gweithgarwch cymdeithas. Roedd dryswch moesol a chymdeithasol enfawr. Roedd dynion o deuluoedd crefyddol a ddysgodd 'Na ladd' yn yr ysgolion Sul bellach yn cael y neges mai 'gwaith Duw' oedd lladd 'y Jeris'. Gwaharddwyd defnyddio'r iaith Gymraeg gan ei bod yn cael ei hystyried yn iaith 'dramor' – nid oedd y milwyr yn cael siarad Cymraeg, ysgrifennu at eu teuluoedd na derbyn llythyrau gan eu perthnasau a'u ffrindiau yn eu mamiaith.

Tan fis Awst 2014, Cymru oedd yr unig un o genhedloedd Prydain oedd heb gofeb ryfel yn Fflandrys er iddi golli miloedd o ddynion ifanc yno yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Sefydlwyd ymgyrch i gael cofeb Gymreig yno a sicrhawyd cydweithrediad awdurdodau Gwlad Belg a gyfrannodd safle ym mhentref bychan Langermark lle'r ymladdwyd Brwydr Passchendaele ym mis Gorffennaf 1917. Erbyn hyn, mae Draig Goch ddramatig, o waith yr artist Lee Odishow, yn sefyll ar gromlech er cof am y Cymry a gollwyd.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

## Dynion Powys




Ar ddechrau'r rhyfel roedd poblogaeth Powys yn debyg i'w phoblogaeth heddiw, tua 135,000. Roedd hyn ychydig dros 5% o boblogaeth Cymru ac felly mae'n debygol – ar sail ystadegau gwladol – bod tua 15,000 o ddynion wedi ymuno â'r lluoedd arfog o siroedd Trefaldwyn, Maesyfed a Brycheiniog, fel yr oeddent ar y pryd. Os yw canran y rhai a fu farw'n adlewyrchu'r ganran ar gyfer Cymru gyfan, roedd nifer y milwyr a fu farw neu a gollwyd o'r tair sir a unwyd wedyn i greu Powys yn llai na 2,000 – nifer fawr, fodd bynnag, o un o ardaloedd lleiaf poblog Cymru.





Bu dynion o Bowys yn gwasanaethu mewn sawl corfflu, brigâd, adran, catrawd a bataliwn ym myddin Prydain, yn y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol, ac yn y Corfflu Hedfan Brenhinol (a ddaeth yn Llu Awyr Brenhinol yn diweddarach). Roedd rhai yn aelodau o'r catrodau Cymreig, yn cynnwys Cyffinwyr De Cymru, y Gatrawd Gymreig a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Gwasanaethodd bataliynau o Gyffinwyr De Cymru ym mhob un o brif ardaloedd y rhyfel, yn cynnwys y Somme, Gallipoli, Palesteina a'r holl frwydrau mawr ar Ffrynt y Gorllewin. Cododd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig fwy o fataliynau nag unrhyw gatrawd arall yn y Rhyfel Mawr.



Recriwtiwyd eraill i fataliynau a godwyd yn lleol fel 2il/7fed Bataliwn Merionnydd a Sir Drefaldwyn a ffurfiwyd yn y Drenewydd ym Medi 1914 a 25ain Bataliwn Iwmyn Maldwyn a Cheffylau Cymru a ffurfiwyd yn yr Aifft yn 1917 o Iwmyn Maldwyn a Marchoglu Ceffylau Cymru. Cafodd y marchoglu tiriogaethol lawer o ddynion o gefn gwlad Powys a oedd wedi hen arfer trin ceffylau. Gwyddom nad oedd llawer o swyddogion o Gymru ac efallai bod hynny'n arwydd o'r agweddau a oedd yn ffasiynol yn y fyddin ar y pryd.

*Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am y catrodau*

## Effaith y rhyfel ar gymunedau a'r bobl a ddaeth trwyddi

Roedd effeithiau'r rhyfel i'w teimlo ym mhob rhan o'r gymdeithas am amser maith. Bu raid i bobl a fu'n ymladd yn y rhyfel ac a ddaeth trwyddi fyw gyda'u hatgofion – atgofion dychrynllyd yn aml iawn – am weddill eu bywydau. Roedd rhai mewn trawma dwfn ('shell shock') a fyddai'n cael ei gydnabod erbyn heddiw fel anhwylder straen wedi trawma (PTSD) ond a ystyrid ar y pryd fel arwydd o lwfrdra. Cofnodwyd llawer o achosion o drais a cham-drin domestig y gellir eu priodoli i'r trawma hwn mewn cymunedau ar ôl y rhyfel.



Roedd llawer o'r milwyr a ddychwelai wedi dioddef anafiadau cas ac wedi'u hanffurfio'n ddifrifol ac effeithiodd hyn yn arw arnyn nhw a'u teuluoedd. Roedd rhai a ddaeth dan ymosodiadau nwy yn y ffosydd yn dioddef o ddallineb ac anafiadau i'w hysgyfaint. Roedd llawer ohonynt yn cael eu cadw draw o lefydd cyhoeddus rhag ofn iddynt ddychryn pobl, ac roeddent yn cael trafferth mawr dod o hyd i waith ac ennill cyflog i gynnal eu teuluoedd.

Roedd cerbydau modur y cyfnod yn dal yn eithaf amrwd ac roedd yr injans yn aml yn poeri a phesychu, neu'n "bacffeirio". Pan oedd hyn yn digwydd mewn stryd brysur ar ôl y Rhyfel Mawr, nid oedd yn anghyffredin gweld dynion yn eu taflu eu hunain i'r llawr. Roedd y greddfau goroesi yr oeddent wedi'u datblygu wrth wasanaethu yn y fyddin yn dal wedi'u cloi yn eu meddyliau ac am ennyd fer roedd eu greddfau'n dweud wrthynt bod rhywun yn saethu atynt unwaith eto! Byddai llawer o ddynion yn y sefyllfa hon yn codi ar eu traed, yn sychu'r llwch oddi ar eu dillad ac yn mynd yn eu blaen fel pe na bai dim wedi digwydd.

Roedd llawer o'r dynion a ddychwelai adref yn cael trafferth addasu i fywyd bob dydd ac i'w teuluoedd. Roedd rhai wedi colli pedair blynedd o ddatblygiad eu plant ac roedd y plant a'u tad yn ddieithriaid i'w gilydd. Roedd llawer yn filain iawn ar ôl treulio amser mewn sefyllfaoedd mor dreisgar.

Gwnaeth menywod gyfraniad pwysig iawn i'r rhyfel. Fe'u recriwtiwyd fel merched tir a gweithwyr coedwigoedd i gymryd lle'r dynion a aeth i'r rhyfel, a bu llawer yn gweithio mewn diwydiant hefyd. Cafodd hyn effaith barhaol ar rôl merched mewn cymdeithas. Cyn hyn roedd merched yn gweithio'n bennaf fel morynion, mewn siopau a melinau ac ar y tir. Daeth y rhyfel â swyddi mwy amrywiol i ferched – â gwell cyflogau ac amodau gwaith. Gallai merched ennill £3 yr wythnos yn y ffatrïoedd arfau, o'i gymharu ag 8 – 10 swllt fel morynion.

Oherwydd y rhyfel, gorfodwyd undebau llafur i dderbyn merched yn aelodau ac i roi'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt fel enillwyr cyflog mewn teuluoedd. Gallai merched gymdeithasu mwy hefyd. Daeth yn dderbyniol i ferched fynd i mewn i dafarnau ar eu pen eu hunain, ac i wisgo trowsus fel y dyngarîs a wisgent wrth weithio.

Merched hefyd oedd yn darparu gwasanaeth angenrheidiol 'cysur i'r milwyr' wrth anfon llythyrau a sigaréts. Cafodd eu hymdrechion effaith anferthol ar forâl y dynion.

Mae llawer o wefannau a all roi gwybodaeth am y Rhyfel Byd Cyntaf, y bobl a ymladdodd yn y rhyfel a'i effaith ar gymunedau.

*Ewch yma am restr o wefannau*

*Y dudalen nesaf*

## Pam y codwyd cynifer o gofebion?

Gan mlynedd yn ôl roedd y rhan fwyaf o bobl Powys yn byw mewn cymunedau bychain – nid yn annhebyg i heddiw, ond ar y pryd, ychydig iawn o bobl oedd yn crwydro ymhell o'u cartref ac, yn sicr, nid oeddent yn gwneud hynny'n aml. Ychydig o bobl oedd yn gallu teithio a chyfathrebu'n hawdd. Roedd bywyd, gan fwyaf, yn troi o gwmpas lleoedd gwaith a canolfannau'r trefi a'r pentrefi – y swyddfa bost, y farchnad, y dafarn neu'r addoldy.

Pan ddaeth hi'n adeg cofnodi'r rhai a syrthiodd yn y 'Rhyfel Mawr', edrychai cymunedau i mewn arnynt eu hunain i nodi'u colledion eu hunain yn hytrach na'u rhannu gyda'r byd. Roedd pobl yr ardal yn nabod y rhan fwyaf a fu farw ac felly roedd pob marwolaeth yn arwyddocaol ac yn golygu llawer i bobl leol. Roedd yn dilyn wedyn y dylai'r cofebion adlewyrchu'r ymdeimlad hwn o gymuned. Ac felly cododd bron bob cymuned, mawr neu fach, ei chofeb ei hunan neu greu llyfrau coffa. Mewn rhai achosion, codwyd cofebion mewn llefydd gwaith er mwyn cofnodi colli gweithwyr neu fosys.







Roedd cofebion 'cenedlaethol', er eu bod yn bwysig, yn rhy bell i atgoffa pobl yn ddyddiol o'r rhai a fu farw. Roedd y rhai a ddychwelodd o'r rhyfel yn awyddus hefyd i gofio'u cydfilwyr a fu farw – y dynion ifanc a fuasai'n ddyfodol i'r gymuned.



Ffurfiwyd gwahanol fathau o bwyllgorau lleol i benderfynu pa fath o gofeb y dylid ei chael, yn lle, ac ar gost pwy – cafodd y rhan fwyaf eu codi neu eu gosod trwy danysgrifiad cyhoeddus. Mewn sawl achos, roedd eglwysi neu gapeli lleol yn cymryd rhan flaenllaw. Roedd rhai cofebion yn enghreifftiau enfawr o gelfyddyd gyhoeddus; roedd rhai yn fwy cynnil ond yr un mor bwysig. Mae llawer yn dal yn ganolbwynt i ddigwyddiadau cofio blynyddol.



www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos



## Cofebion ym Mhowys

Mae dros 300 o gofebion rhyfel o wahanol fathau ym Mhowys. Mae rhai y tu allan a llawer y tu mewn. Mae nifer yn gerfluniau cywrain, yn aml yn darlunio milwr mewn ystum meddylgar; mae eraill yn groesau syml neu addurniadol, a rhai yn Gristnogol iawn eu dyluniad. Gwnaed rhai gan gerflunwyr enwog o'r cyfnod. Mae nifer yn ddienw ond mae enwau'r rhai a'u creodd yn aml wedi'u cofnodi yng nghofnodion y plwyf neu ryw archif arall.




Placiau ar waliau eglwysi, neuaddau pentref, llefydd gwaith neu adeiladau eraill yw'r cofebion dan do yn aml iawn. Ceir rhai ffenestri lliw mewn eglwysi, ac mae sawl un ar ffurf rhestr wroniaid wedi'i llythrennu neu ei hargraffu.




Gallant fod yn gofebion i rywun penodol, i lawer neu, yn syml, i'r 'rhai a syrthiodd'. Gallant gofnodi manylion personol y rhai y maent yn eu coffáu, eu rheng, eu bataliwn, eu llong neu wybodaeth arall fel lle buont farw. Gallant ddweud pwy oedd yn gyfrifol am y gofeb. Mae rhai'n cynnwys dyfyniad crefyddol neu ryw ddyfyniad arall; yn Saesneg y mae'r rhan fwyaf ond mae rhai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Beth sy'n bwysig yw bod pob cofeb yr un mor werthfawr i'w chymuned, beth bynnag yw ei maint, ei dyluniad, ei defnydd neu ei lleoliad. Yr hyn sy'n dod yn fwyfwy pwysig yn awr yw bod pob cofeb yn cael ei chofnodi – nid yn unig ei math a'i chynnwys, ond hefyd ei chyflwr, gan fod llawer yn dangos arwyddion treulio oherwydd y tywydd neu ddirywiad arall. Bydd wastad yn bwysig bod cymunedau'n cytuno pwy ddylai fod yn gyfrifol am ofalu am y cofebion, eu trwsio os oes angen, a'u cynnal a'u cadw.



Roedd pawb y rhestrir ei enw yn dod o deulu ac yn perthyn i gymuned. Mae llawer o'r teuluoedd hyn yn dal i fyw yn yr ardal, rhai yn yr un dref neu bentref. Mae eraill yn cymryd diddordeb o bell. Mae cenedlaethau newydd yn awyddus i ddysgu am eu hynafiaid ac i gofio fod pob un wedi ildio'i fywyd er mwyn buddugoliaeth ac er mwyn ei wlad a daioni cyffredinol.






www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos


# ③ Cofebion rhyfel

## Beth yw cofeb ryfel?




Gall cofeb ryfel fod yn unrhyw beth sy'n cynnwys arysgrif, neu a luniwyd i goffáu rhyfel neu wrthdaro a'r rhai fu'n cymryd rhan. Gall cofeb gael ei chreu neu ei chodi gan unrhyw un yn unrhyw le a gall fod yn un barhaol *(cofeb, cerflun neu groes garreg)*, yn un dros dro *(cysegr neu lyfr coffa)* neu'n un fyw *(coeden neu grŵp o goed)*.

Gall cofeb fod mewn lle cyhoeddus neu breifat a gall fod y tu mewn i adeilad neu ynghlwm wrtho, neu y tu allan mewn gardd, mynwent neu le cyhoeddus. Mae amryw wedi'u lleoli mewn parciau cyhoeddus neu ar sgwâr trefi ond mae llawer mewn llefydd sy'n anos dod o hyd iddynt.




Gall cofebion rhyfel goffáu unigolyn neu nifer o bobl. Gallant goffáu rhai a fu farw wrth ymladd, mewn damweiniau adeg rhyfel neu gan fwledi eu hochr eu hunain, neu efallai iddynt farw o ganlyniad i anafiadau neu afiechydon a gawsant yn y rhyfel. Gallant hefyd goffáu'r











rhai a fu'n gwasanaethu ac a oroesodd, sifiliaid a oedd yn rhan o'r gwrthdaro neu a effeithiwyd ganddo, ynghyd ag anifeiliaid. Gellir codi cofebion yn ystod y gwrthdaro neu'n fuan wedyn neu hyd yn oed rai blynyddoedd yn ddiweddarach.




Nid yw carreg ar fedd milwr a syrthiodd yn cyfrif fel cofeb ond fel 'bedd rhyfel'. Os nad yw'r corff yn bresennol a bod arysgrif ychwanegol wedi'i wneud am y person, wedyn gellir ei chyfri'n gofeb. Mae llawer o filwyr Cymru a'r Deyrnas Unedig wedi eu claddu dramor mewn mynwentydd sy'n dal i gael eu cynnal a'u cadw gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn y Deyrnas Unedig ddiffiniad cryno o gofeb ryfel.
*'Any physical object created, erected or installed to commemorate those involved in or affected by a conflict or war should be considered a war memorial. Memorials to civilians and animals should be included.'*

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

## Hanes cofebion rhyfel

Y gofeb ryfel gynharaf i gael ei chofnodi yn y Deyrnas Unedig yw carreg goffa Bictaidd i frwydr Dunnichen yn Aberlemno ger Forfar yn yr Alban. Mae'n dyddio o'r seithfed ganrif OC.

Mae cofebion diweddarach yn tueddu i ddathlu buddugoliaethau neu goffáu unigolion arwyddocaol. Nid oeddent yn enwi'r milwyr cyffredin a fu farw. Newidiodd hyn ar ôl y Rhyfel yn erbyn y Boeriaid (1899-1902) pan ddechreuodd cymunedau goffáu'r rhai a gollodd eu bywydau trwy godi cofebion a oedd yn aml yn rhestru enwau pawb a laddwyd.

Daeth y Rhyfel Byd Cyntaf â throbwynt o safbwynt creu cofebion rhyfel. Oherwydd y nifer anferthol o farwolaethau, nid oedd Llywodraeth Prydain yn caniatáu dychwelyd cyrff i Brydain. Roedd hyn yn gadael y rhai mewn galar gartref heb fedd na chanolbwynt i'w galar.

O ganlyniad, ffurfiwyd pwyllgorau cofebion rhyfel i arwain ymgyrchoedd i greu cofebion i anrhydeddu'r cof am bobl leol a laddwyd yn ystod y gwrthdaro. Yn aml, penderfynwyd ar natur y gofeb ryfel mewn cyfarfod cyhoeddus a byddai'r penderfyniad terfynol yn adlewyrchu dymuniadau'r gymuned leol. Oherwydd diffyg rheolau a chyfarwyddiadau gan y llywodraeth, cafodd sawl math o gofeb ryfel ei greu.

Mae gan y rhan fwyaf o gymunedau o leiaf un, ac weithiau fwy nag un, gofeb ryfel. Dim ond pum deg dau o 'bentrefi diolchgar' a gofnodwyd yn y Deyrnas Unedig. Pentrefi oedd y rhain lle dychwelodd pawb a aeth i'r rhyfel. Dim ond pedwar 'pentref diolchgar' sydd yng Nghymru – Llanfihangel y Creuddyn, Tregolwyn, Herbrandston a'r Groes, Sir Faesyfed.

## Mathau o gofebion rhyfel

Gall unrhyw beth gael ei greu neu ei gysegru'n gofeb ryfel. Fe'u ceir mewn amryw o wahanol siapiau, meintiau, dyluniadau a defnyddiau a llawer ohonynt yn wahanol iawn i'r ddelwedd draddodiadol, gyfarwydd o groes ar ben colofn neu blinth. Y syniad pwysicaf fodd bynnag oedd creu rhywbeth fyddai'n para er mwyn cadw'r cof am y meirw'n fyw, ac mae'r dyluniad a ddewiswyd gan gymuned yn cynnig cip inni ar eu teimladau a'u hymateb nhw.

Amcangyfrifir bod rhwng 60,000 a 100,000 o gofebion rhyfel yn y Deyrnas Unedig, gyda thua 300 wedi'u cofnodi ym Mhowys ar hyn o bryd, a llawer mwy yn debygol o gael eu cofnodi o ganlyniad i'r prosiect hwn. Un pwrpas cyffredin sydd ganddynt ond eto mae sawl gwahanol fath wedi'u gwneud o sawl gwahanol ddeunydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r cofebion rhyfel a adeiladwyd yn ystod y 1920au a'r 1930au yn geidwadol eu dyluniad, yn cyfleu negeseuon o gysur a pharch fel coffâd parhaol. Mae llawer yn dilyn themâu clasurol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi eu symleiddio a'u gwneud yn fwy haniaethol i adlewyrchu arddulliau dechrau'r ugeinfed ganrif. Yn gyffredinol, comisiynwyd y cofebion ar lefel leol iawn, gyda llawer o sefydliadau lleol a chenedlaethol ynghlwm â'r peth. Roedd amrywiaeth fawr yn y trefniadau ariannu hefyd gyda chyfraniadau preifat ac elusennol yn dod o sawl ffynhonnell.

Ar y dudalen nesaf, dangosir rhestr gyffredinol o wahanol fathau o gofebion, gydag enghreifftiau o Bowys.

*Gwelir rhestr fwy cynhwysfawr o fathau gwahanol o gofebion yn y DU ar wefan Archifau Cofebion Rhyfel, www.ukniwm.org.uk*

Y dudalen nesaf



## Croesau

Gwelir y rhain mewn sawl gwahanol arddull yn cynnwys croes ar ffurf olwyn yn Nhre'r-llai ger y Trallwng; y groes Ladin yng Nghleirwy ger y Gelli Gandryll (gyda chrog) neu groes y farchnad yn y Bwlch. Mae calfarïau i'w cael hefyd.

## Cerfluniau o bobl



Gan amlaf, mae'r ffigyrau hyn yn cynrychioli aelodau'r lluoedd a naill ai'n ffurfio'r gofeb gyfan, fel yn Llandrindod a Maesyfed, neu'n ffurfio rhan o gofeb fwy fel yn Llanfair-ym-Muallt a Rhaeadr Gwy. Defnyddid cerfluniau buddugoliaeth neu heddwch fel rhan o rai cofebion hefyd. Cafodd y ffigwr efydd ar y gofeb ryfel yn Llandrindod ei gerflunio gan B Lloyd a'i Feibion o Raeadr Gwy. Dyn lleol o'r enw Jack Hamer oedd y model.




## Senotaff

Daw'r gair 'senotaff' o'r geiriau Groeg am 'fedd gwag' ac felly mae'n coffáu pobl y mae eu gweddillion wedi eu claddu yn rhywle arall. Gall fod yn gofeb i unigolyn neu grŵp. Y senotaff a gynlluniwyd gan Edwin Lutyens yn Whitehall, Llundain yw'r enghraifft fwyaf adnabyddus ond mae llawer o rai eraill ar hyd a lled y wlad. Mae enghreifftiau bychain i'w gweld yn Nhrefyclo a Llanandras.

## Obelisgau a cholofnau



Cofeb dal, gul, sy'n mynd yn bigfain yw obelisg – fel yr un yn Nhal-y-bont (Buttington), ger y Trallwng. Roedd obelisgau a cholofnau 'wedi torri' yn cael eu ffafrio mewn sawl lle. Roedden nhw'n symbolau o fywydau a dorrwyd yn fyr. Mae enghraifft drawiadol o gofeb ar ffurf colofn glasurol yn sefyll ar ben y bryn yn edrych i lawr dros Drefaldwyn.




## Rhestrau gwroniaid

Yn aml, roedd rhestrau gwroniaid (rolls of honour) yn rhai syml ac roedd rhai mewn eglwysi fel Llanfaredd, ger Llanfair-ym-Muallt, a Glascwm, mewn neuaddau fel Neuadd Les y Glowyr, Coelbren ac mewn ysgolion fel Ysgol Maesydderwen, Ystradgynlais.



## Byrddau, placiau a llechi

Mae cofebion ar ffurf placiau yn gyffredin ac roeddent naill ai'n cael eu defnyddio ar eu pen eu hunain neu




www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf


Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon
Beth i'w wneud â'r wybodaeth
Astudiaeth achos






fel rhan o gofeb fwy. Fel rheol, roedd arysgrif neu restr o enwau ar y plac. Mae perygl i blaciau metal gael eu dwyn neu eu difrodi oherwydd eu gwerth fel metal sgrap.





Cewch blaciau o wahanol ddeunyddiau mewn llefydd fel neuaddau, ysgolion, capeli ac eglwysi.

Gall plac fod yn gofeb breifat i filwr unigol, fel yr un i John Davies yn Eglwys Sant Mihangel, Llanfihangel Helygain ger Rhaeadr Gwy.

## Ffitiadau eglwysi

Roedd y ffitiadau'n rhan o adeiladwaith neu addurnwaith yr eglwys ac yn eu plith roedd y pulpud yng Nghapel Coelbren, ffenestri coffa gan Christopher Whall yn Eglwys yr Holl Saint, y Clas-ar-wy a phorth eglwys Aberriw.





## Cofebion defnyddiol

Cafodd y cofebion uchod i gyd eu cynllunio fel nodweddion annibynnol mewn lle penodol – mewn parc, gardd, adeilad neu ar sgwâr y pentref. Ond dewisodd rhai cymunedau greu rhywbeth mwy defnyddiol er cof am y rhai a syrthiodd. Ymhlith y rhain, roedd ysgolion, neuaddau pentref, ysbytai (fel Ysbyty Coffa Aberhonddu), caeau chwaraeon, gerddi a pharciau. Ymhlith y rhai sy'n dal ar ôl mae cafnau ar gyfer ceffylau (fel a geir yn Norton, ger Trefyclo), ffynhonnau (Cwm-twrch ger Ystradgynlais) a thyrau clociau (Rhaeadr). Gall y cofebion hyn gynnwys plac neu hysbysiad coffa yn esbonio mai cofeb ydyw.












www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

## Symboliaeth cofebion

Defnyddir llawer o wahanol symbolau mewn cofebion. Daw llawer o ddelweddau Cristnogol traddodiadol, gan gyfleu themâu hunan-aberth, buddugoliaeth a marwolaeth. Mae rhai'n defnyddio themâu canoloesol sy'n cyfeirio at orffennol mwy sefydlog ac eraill yn defnyddio arddull gyfoes art deco. Dyma rai enghreifftiau o symbolau a ddefnyddiwyd mewn cofebion:







### Croes aberth

Cynlluniwyd y math hwn o gofeb gan y pensaer Reginald Blomfield ar gyfer Comisiwn Beddau Rhyfel yr Ymerodraeth i goffâu'r meirwon a gladdwyd mewn mynwentydd rhyfel dramor. Fel rheol, roedd yn groes Ladin galchfaen â phedwar pigyn, yn sefyll ar ei phen ei hunan, ar waelod wythochrog, gyda chleddyf mawr efydd, â'i lafn am i lawr, wedi'i blannu yn wyneb y groes. Mae'r groes yn cynrychioli ffydd y rhan fwyaf o'r meirw ac mae'r cleddyf yn cynrychioli hunanaberth y milwyr. Mae cofebion wedi'u hysbrydoli gan y cynllun hwn yn Nhre'r-llai ac yn Llangunllo.




### Torch

Efallai mai dyma'r math mwyaf cyffredin o gofeb. Fe'i defnyddiwyd fel symbol traddodiadol o goffáu, parhad bywyd neu fuddugoliaeth, ar ffurf torch o ddail llawryf. Fe welwch enghreifftiau yn Nhrefyclo, Llanandras a Thalgarth a thorch wedi'i chyfuno â chroes aberth yn Ngharno a chleddyf yn y Drenewydd.



### Arfau o chwith


Yn aml, roedd cerfluniau o filwyr yn cael eu portreadu â'u harfau (reifflau) o chwith fel symbol o barch ac er cof am eu cydfilwyr a fu farw. Mae enghreifftiau i'w gweld ym Maesyfed a Llandrindod.







www.Powys.gov.uk


Y dudalen nesaf




## Epitaffau

Yn aml, roedd arysgrif ar ffurf cyflwyniad neu epitaff gydag enwau'r rhai a goffawyd. Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, cyflogwyd Rudyard Kipling gan Gomisiwn Beddau Rhyfel yr Ymerodraeth i fod yn gynghorydd llenyddol ar yr arysgrifau i'w defnyddio ar gofebion rhyfel. Roedd hwn yn ddewis braidd yn eironig gan fod Kipling yn un o'r rhai oedd yn gyfrifol am greu'r propaganda a lwyddodd i annog cynifer o ddynion i ymrestru yn y lle cyntaf – ond collodd fab yn y rhyfel.




Ceir rhai epitaffau Lladin. Er enghraifft, *'Pro patria non timeo mori'* (Er mwyn eich gwlad, nac ofnwch farwolaeth) ar restr y gwroniaid yn Llanfaredd, ger Llanelwedd.

Kipling a gyfansoddodd yr epitaff cryno a ddefnyddir yn aml: *'Their name liveth for evermore'* a welir ar gofeb Llandrindod ac a addaswyd ar nifer o rai eraill.


Epitaff cyffredin arall yw'r un a dadogir i John Maxwell Edmonds, clasurwr o Sais, a luniodd gasgliad o ddwsin o epitaffau ar gyfer y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1916:

*When you go home*
*Tell them of us and say*
*For your tomorrow*
*We gave our today*

Mae'r epitaff yn ymddangos yn llawn ar y gofeb yn Nhrefaldwyn ac yn rhannol ar gofeb Trefyclo.




Roedd epitaffau eraill yn ddyfyniadau a addaswyd o weithiau llenyddol enwog fel Pilgrim's Progress gan Bunyan yng Nghwm-bach a Maesyfed: *'So they passed over and all the trumpets sounded for them on the other side.'* Neu gellir defnyddio dyfyniadau o'r Beibl fel *'The sun went down while it was yet day'* (Jeremeia 15.9) ar y gofeb yn Nhalgarth.




www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

## Deunyddiau cofebion rhyfel

Gwnaed cofebion o nifer o wahanol ddeunyddiau.



**Carreg**

Gwnaed llawer o'r cofebion, yn enwedig y croesau a'r senotaffau cyffredin mewn trefi a phentrefi, o gerrig lleol, fel calchfaen, tywodfaen neu ithfaen. Mae tywodfaen a chalchfaen yn eithaf meddal ac yn hawdd eu cerfio ond gallant erydu'n ddrwg dros amser oherwydd effaith y tywydd. Mae ithfaen yn galetach o lawer ac mae'n gwrthsefyll yr elfennau yn well.

Cawsai arysgrifau eu cerfio'n uniongyrchol i'r garreg neu eu castio mewn efydd neu blwm a'u rhoi ar y gofeb fel plac, neu eu rhoi i mewn i'r garreg fel llythrennau metal wedi'u castio'n unigol. Weithiau, câi plwm tawdd ei arllwys i'r llythrennau a gerfiwyd.

**Brics**

Cafodd rhai cofebion eu hadeiladu gan ddefnyddio cyfuniad o frics a cherrig, neu dim ond brics. Fel rheol, câi arysgrifau eu rhoi ar blac metal, yn sownd wrth y gofeb. Cafodd llawer o fwâu coffa eu gwneud o frics.

**Concrit**

Er nad oedd yn gyffredin ar gyfer Cofebion y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd llawer o gofebion a godwyd wedyn, ac a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at y rhai a fu'n gwasanaethu yn y rhyfel, yn cynnwys rhannau wedi'u castio mewn concrit fel grisiau, bolardau neu derfynau. Mae concrit yn tueddu i staenio, hindreulio a chracio.




**Efydd neu Bres**

Mae llawer o gofebion sydd â cherfluniau o bobl wedi'u cerfio o garreg neu eu castio mewn efydd. Mae 'na gerfluniau efydd o filwyr, angylion neu ffigyrau crefyddol neu chwedlonol. Mae rhai cofebion ar ffurf tyrau clociau â bysedd a rhifau'r cloc wedi'u gwneud o efydd neu blwm.

Cafodd llawer o blaciau eu castio o efydd neu bres a'u rhoi ar groesau neu mewn eglwysi ac adeiladau eraill. Ceir enghreifftiau hefyd o glychau coffa ar gyfer eglwysi wedi'u castio mewn efydd ac enwau'r rhai a syrthiodd wedi'u harysgrifo ar bob cloch.




Mae placiau a cherfluniau a gastiwyd yn gwrthsefyll y tywydd yn dda ond gallant ddioddef cyrydu, gan achosi'r patina gwyrdd cyffredin a elwir yn ferdigris neu rwd gwyrdd. Gwaetha'r modd, mae gwerth i bethau efydd a phres fel metal sgrap ac mae llawer wedi'u fandaleiddio neu eu dwyn.

**Plwm**

Roedd llawer o arysgrifau'n cael eu castio mewn plwm, neu roedd plwm tawdd yn cael ei arllwys i mewn i arysgrifau a gerfiwyd mewn carreg.

**Haearn**

Gall gatiau mynediad o haearn bwrw neu haearn gyrru fod yn rhan o gofeb sydd ag arysgrif ar y pileri yn rhestru'r rhai a syrthiodd.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos




**Pren**

Mae llawer o enghreifftiau o byrth eglwysi a chofebion eraill tebyg wedi'u gwneud o bren ar dir eglwysi. Byddai'r arysgrifau'n cael eu cerfio yn y pren neu eu gosod arno ar blac efydd. Yn ogystal, fe welir placiau pren, y tu mewn i adeiladau, gydag arysgrifau wedi'u cerfio arnynt, a fframiau pren yn dal placiau metal mewn eglwysi.




**Papur**

Gall cofebion mewn eglwysi fod ar ffurf Llyfrau Coffadwriaeth gydag arysgrifau wedi'u hysgrifennu â llaw.




**Gwydr**

Yn aml, mae ffenestri eglwysi yn gofebion rhyfel, gydag enwau'r rhai a goffeir wedi'u hysgrifennu yn y gwydr neu ar blaciau ger y ffenest. Gwelir enwau'r rhai a wasanaethodd ar restrau gwroniaid mewn rhai eglwysi.

**Paentio neu Euro**

Mae arysgrifau wedi'u paentio neu eu heuro ar lawer o baneli pren.

Cewch ragor o wybodaeth am gofebion rhyfel:

*Cliciwch yma i gael canllaw Cadw, 'Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru'*

*Cliciwch yma i weld canllawiau technegol Cadw*

*Cliciwch yma i weld www.learnaboutwarmemorials.org*

*Dyma ganllaw Historic Scotland i gofebion rhyfel*

www.Powys.gov.uk


Y dudalen nesaf

## Pwy sy'n cael eu coffáu ar gofebion?

Codwyd y rhan fwyaf o gofebion rhyfel gan y gymuned leol ac nid gan y llywodraeth. Felly, ni chafodd yr enwau sydd ar y cofebion eu cymryd o gronfa ganolog ond eu dewis gan y pwyllgor a sefydlwyd i godi'r gofeb.

Casglwyd yr enwau trwy holi o-ddrws-i-ddrws, trwy daflenni, cyhoeddiadau yn y capeli a'r eglwysi, erthyglau papur newydd neu wrth i bobl sgwrsio. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr o'r rhai sy'n cael eu coffáu bob amser yn cynnwys pawb. Weithiau, roedd enwau heb eu cynnwys trwy gamgymeriad ac weithiau doedd y teuluoedd ddim yn dymuno cynnwys enwau eu meibion neu eu gwŷr a oedd ar goll, rhag ofn iddynt ddod i'r golwg wedi'r cyfan. Roedd yn well gan rai teuluoedd godi cofeb breifat i goffáu aelodau a fu farw.

I ychwanegu at y dryswch, roedd rhai teuluoedd wedi symud i ffwrdd. Er enghraifft, os oedd gwraig weddw'n gadael ardal, nid oedd enw ei gŵr bob amser yn ymddangos ar gofeb yr ardal honno ond, weithiau, yr oedd ar y gofeb yn y pentref neu'r dref y symudodd iddo; efallai, ar y llaw arall, nad oedd ar yr un ohonynt.











Gallai'r rhai a restrwyd ar gofeb fod wedi'u lladd wrth ymladd neu wedi marw o glefyd neu ddamwain. Roedd aelodau'r lluoedd arfog a ddaeth adref wedi'u clwyfo ac a fu farw cyn 31 Awst 1921 yn cael eu cyfrif yn golledion rhyfel a gellid cynnwys eu henwau ar gofeb.



Roedd rhai cofebion yn anrhydeddu pobl a fu'n ymladd ac na fu farw. Er enghraifft, mae'r gofeb yn eglwys Llansanffraid yn cynnwys enwau pump a anafwyd yn yr ymladd a dau a fu'n garcharorion rhyfel. Yn yr un modd, mae plac yn Eglwys Dewi Sant, Rhiwlen yn cofnodi dau a fu farw a phedwar a fu yn y rhyfel ond na laddwyd.

Roedd cofebion yn coffáu pobl a fu farw ac a oedd ar goll ond roeddent hefyd yn cynrychioli'r rhai a gollodd anwyliaid yn y rhyfel – teuluoedd, ffrindiau a rhai oedd wedi dyweddïo â'r rheiny – pobl yr effeithiwyd yn ddifrifol ar eu bywydau. Roeddent yn bwysig iawn i berthnasau a ffrindiau, fel canolbwynt ar gyfer eu myfyrdodau a'u galar.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon
Beth i'w wneud â'r wybodaeth
Astudiaeth achos

## Sut y cofnodwyd yr enwau

Mae'r ffordd o gyflwyno'r enwau unigol yn amrywio o gofeb i gofeb. Cawsant eu rhestru mewn sawl gwahanol ffordd, yn cynnwys:



- Yn nhrefn yr wyddor, gyda'r cyfenw a'r enw cyntaf neu'r llythrennau blaen, fel sydd ar gofebion Machynlleth a Rhaeadr Gwy.
- Yn nhrefn yr wyddor fel uchod, ond gyda'r rheng, y gatrawd a dyddiad y farwolaeth (y Bontnewydd ar Ŵy).
- Yn nhrefn eu rheng (Cleirwy).
- Yn nhrefn dyddiad eu marw.


Nid oedd rhai cofebion, fel un Tre'r-llai, yn cofnodi enwau, dim ond yn coffáu'r rhai a laddwyd yn y rhyfel.







Cafodd rhai enwau eu cynnwys ar fwy nag un gofeb. Er enghraifft, cafodd rhai eu cynnwys ar gofeb tref neu bentref ac ar gofeb neu restr gwroniaid arall a drefnwyd gan eu




cymuned, eu hysgol, eu heglwys, eu cwmni neu eu clwb. Gall hyn achosi dryswch wrth ymchwilio i enwau ac mae'n werth gwneud yn siŵr bod yr enwau, y cyfeiriadau, a'r dyddiadau geni a marw yn cyfateb.



Sut bynnag yr oedd cymuned yn dewis cofnodi'r enwau, mae'n bwysig cofio mai cofeb ryfel yw'r unig gofnod a geir o rai pobl. Felly, mae pob cofeb yn gofnod unigryw o'r gorffennol ac o etifeddiaeth cymuned.

Dewisodd y llywodraeth gynnwys yr enw yn unig ar y plac coffadwriaethol "Ceiniog y Brenin" ("Dead Man's Penny") a roddid i berthynas agosaf y rhai a fu farw gan fod pawb yn gyfartal mewn marwolaeth. Nid hwn oedd y tro cyntaf i aelodau o wahanol ddosbarthiadau cymdeithasol farw yn yr un rhyfel ond hwn oedd y tro cyntaf iddynt fyw a marw gyda'i gilydd.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

# 4 Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt

Gall cofebion rhyfel, fel unrhyw gofeb neu adeilad, ddirywio dros amser. Gellir eu difrodi trwy hindreulio, trin a thrafod, y ddaear yn suddo, fandaliaeth a gwaith cadwraeth sâl. Mae'n bwysig gofalu am gofebion fel y gall cymunedau, a'r oesoedd a ddêl, werthfawrogi eu gwerth.

## Cyflwr cofebion

Mae llawer o gofebion y tu allan, yn agored i'r tywydd, ond mae rhai sydd y tu mewn i eglwysi, busnesau a thai preifat yn cael eu gwarchod yn well rhag yr elfennau. Mae nifer o broblemau'n gallu effeithio ar gofebion sydd yn yr awyr agored, yn cynnwys:

- Y garreg yn dirywio, oherwydd llygredd yn yr awyr, planhigion yn tyfu, difrod i'r garreg, glanhau, graffiti etc.
- Y mortar ac wyneb y brics neu'r garreg yn erydu, trwy hindreulio.
- Y tir yn suddo gan effeithio ar y sylfeini.
- Colli'r arysgrifau trwy ddifrod rhew, neu fod y llythrennau plwm neu efydd yn cael eu dwyn.
- Placiau metal a reilins yn cael eu dwyn oherwydd eu gwerth fel sgrap.
- Fandaliaeth i bob rhan o'r gofeb, gyda difrod i wyneb y gofeb a defnyddio chwistrellau paent.

Gall placiau neu restrau gwroniaid, sydd wedi'u gosod ar adeiladau neu y tu mewn iddynt, ddioddef:

- Fandaliaeth i wyneb y gofeb neu ddifrod gan forthwylion, pinnau ysgrifennu neu chwistrellau paent.
- Colli'r arysgrifau.
- Y pren neu'r papur yn dirywio.

Gellir osgoi neu drwsio llawer o'r problemau hyn trwy ddilyn rhaglen gynnal a chadw reolaidd, gan ddechrau trwy baratoi cynllun 'cynnal a chadw cadwraeth'.

*Cliciwch yma i gael canllaw Cadw, 'Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru'*

*Cliciwch yma i weld canllawiau technegol Cadw*

Yn y Pecyn Cofnodi fe gewch fanylion sut i baratoi cynllun 'cynnal a chadw cadwraeth' a sut i ofalu am gofeb a'i thrwsio. Mae crynodeb o'r prif gamau i'w cymryd wrth ofalu am gofeb ryfel i'w gweld dros y dudalen.

*Cliciwch yma i fynd i'r Pecyn Cofnodi*



Y dudalen nesaf

## Paratoi cynllun 'cynnal a chadw cadwraeth'

Dull o fynd ati yn y ffordd briodol i nodi ymddangosiad a chyflwr cofeb a pharatoi rhaglen o waith cynnal a thrwsio rheolaidd yw'r cynllun 'cynnal a chadw cadwraeth'. Dylid paratoi'r cynllun fesul cam.



### 1. Cofnodi'ch cofeb

Cyn gwneud unrhyw waith cynnal neu drwsio ar gofeb, dylech wneud cofnod manwl o'i nodweddion a'i chyflwr presennol ac anfon hwn at Brosiect Cofebion Rhyfel Powys a'r Adran Treftadaeth Adeiledig yng Nghyngor Sir Powys. Yna, gallan nhw roi cyngor i chi ar y ffyrdd gorau o ofalu amdani.

*Cewch Ffurflen Gofnodi yma*

Byddem yn argymell yn gryf hefyd eich bod yn cynnal arolwg o gyflwr eich cofeb.

*Dyma ffurflen i nodi ei chyflwr*

Os hoffech ddysgu rhagor am gofebion, mae nifer o sefydliadau a gwefannau a all eich helpu, ac mae gan haneswyr lleol, myfyrwyr, ac ymddiriedolaethau dinesig gyfoeth o wybodaeth am gofebion a hanes y Rhyfel Byd Cyntaf.

*www.warmemorials.org*

Os nad yw'r gofeb wedi'i gwarchod trwy restru, efallai yr hoffech wneud cais am statws rhestredig. Gall Cyngor Sir Powys eich helpu i ganfod a oes modd ei rhestru.

### 2 Monitro'ch cofeb

Dylech archwilio'r gofeb yn rheolaidd – o leiaf unwaith y flwyddyn. Efallai y byddai'n syniad da i drefnu i arbenigwr addas ei harchwilio. Defnyddiwch restr gyfeirio i sicrhau eich bod yn monitro cyflwr y prif nodweddion yn cynnwys yr adeiladwaith, yr enwau a'r arysgrifau, hwylustod mynd ati, yr amgylchoedd ac unrhyw elfennau diogeledd.

*Cewch ragor o fanylion yn y Pecyn Cofnodi*

### 3. Cynnal a chadw eich cofeb

Dylid sicrhau bod pob gwaith cynnal a chadw ar gofeb yn cael ei wneud gan arbenigwr sydd wedi'i hyfforddi'n iawn. Gallwch gynnwys y gymuned ond dylent gael eu harwain gan arbenigwr sydd â'r cymwysterau priodol. Mae llawer o bethau y dylech, ac na ddylech, eu gwneud wrth gynnal a chadw cofeb.

*Manylion yn y Pecyn Cofnodi*

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos



### 4. Trwsio'ch cofeb

Os oes angen trwsio cofeb, dylech gael cymorth proffesiynol gan arbenigwr sydd â'r cymwysterau priodol. Bydd arbenigwr yn asesu unrhyw broblemau ac yn argymell sut i'w datrys. Gall Prosiect Cofebion Rhyfel Powys, Cyngor Sir Powys neu'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel (War Memorials Trust) gynnig cyngor ac arweiniad ar y gwaith y mae angen ei wneud ac a oes cyllid ar gael ar ei gyfer.

*Ceir cyngor ac arweiniad yn www.powys.gov.uk*

*Cliciwch yma i gael canllaw Cadw, 'Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru'*

*Cliciwch yma i weld canllawiau technegol Cadw*



## Cynnwys y gymuned

Mae'n beth da cynnwys eich ffrindiau a'ch cymdogion o'r gymuned yn y gwaith o gofnodi a chynnal a chadw cofebion rhyfel. Os ydynt yn gwybod am y gofeb ac yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o ofalu amdani, gallant helpu i'w harchwilio i weld a oes difrod iddi neu a yw wedi dirywio. Yn yr adrannau nesaf, ceir awgrymiadau sut y gall y gymuned gymryd rhan.





*www.Powys.gov.uk*

Y dudalen nesaf

## Grantiau

Mae grantiau ar gael gan Cadw ar gyfer trwsio a gwarchod cofebion rhyfel. Gall yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel (War Memorials Trust) gynnig rhagor o arian trwy ei Gynllun Grantiau Bach ar ben y 70% sydd ar gael trwy gynllun Cadw.

**Mathau o waith y gall y War Memorials Trust ei ariannu**

- Cadwraeth.
- Trwsio tebyg am debyg.
- Gwaith trwsio/sefydlogi strwythurol.
- Adfer elfennau colledig sy'n rhan hanfodol o'r dyluniad.
- Ychwanegu enwau os gellir eu cynnwys ar y gofeb.
- Arolygon cyflwr ac adroddiadau strwythurol proffesiynol.

**Y mathau o waith na allant ei ariannu**

- Cofebion rhyfel newydd.
- Cynnal a chadw.
- Gwaith neu ddulliau amhriodol.
- Symud cofeb, os nad yw 'mewn perygl' ac mai dyna'r dewis olaf.
- Gwaith ar feddau o unrhyw fath.
- Ceisiadau i fwy nag un cynllun a weinyddir gan yr Ymddiriedolaeth am yr un gwaith.
- Os yw'r gwaith eisoes wedi'i ddechrau neu ei orffen.

Mae'r cynlluniau grantiau ar agor i bawb wneud cais iddynt.

*Cewch ragor o wybodaeth yn www.warmemorials.org/grants/*

Mae arian ar gael gan Gyngor Sir Powys hefyd ar gyfer gwaith gwarchod a gwella ar gofebion rhyfel. Os hoffech fanylion, cysylltwch â Thîm y Prosiect Cofebion Rhyfel.

Ar ôl gorffen cofnodi, cadwch gopi ar eich cyfer chi ac anfon copi arall at Dîm Prosiect Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd:

- Gallwch lwytho'r manylion ar wefan y prosiect:

*www.powys.gov.uk/cofebionrhyfel*

- Gallwch ebostio copi i'r tîm: warmemorials@powys.gov.uk

- Gallwch anfon copi trwy'r post at:
  Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys,
  Neuadd y Sir, Llandrindod,
  Powys, LD1 5LG

- Gallwch ffonio Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys i roi'r wybodaeth, ar:

  0845 6027030 neu 01597 827460



Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

# 5 Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon

Gall ymchwilio i gofebion rhyfel fod yn waith sy'n rhoi llawer o foddhad ond mae hefyd yn cymryd llawer o amser. Mae'n ffordd o ddarganfod pobl o'r gorffennol nad yw'n rhy bell yn ôl – llawer ohonynt â straeon rhyfeddol i'w hadrodd a nifer â pherthnasau'n dal i fyw yn yr ardal. Mae llawer o gofnodion ar gael o hyd am bobl a fu'n ymladd yn y rhyfel ac am y caledi y gwnaeth eu teuluoedd a'u ffrindiau ei ddioddef yn ystod y rhyfel ac wedyn. Mae'r adran hon yn rhoi rhestr o bethau y gallwch eu gwneud i ddysgu mwy am y bobl ar y cofebion.

## Darganfod mwy am bobl y cofebion

Yn gyntaf, chwiliwch i weld pa wybodaeth sydd eisoes ar gael am y gofeb ryfel. Efallai y bydd rhyw gymdeithas neu unigolyn wedi gwneud tipyn o ymchwil yn barod. Holwch grwpiau hanes lleol, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, ysgolion a grwpiau cymunedol eraill.

Pan fyddwch yn gwybod beth sydd ar gael a lle mae'r bylchau, penderfynwch beth yr ydych am ymchwilio iddo. Dyma dipyn o awgrymiadau am ymchwilio i'r enwau ar y cofebion.

1. Ysgrifennwch yr enwau sydd ar y gofeb, yn union fel y maent ac yna rhestrwch eu holl fanylion, yn cynnwys eu cyfenw, eu henwau cyntaf, eu rheng, eu catrawd a'u rhif. Tynnwch lun o'r gofeb ryfel a'r rhestr enwau.

2. Edrychwch ar gofebion eraill yn yr ardal, fel rhestr gwroniaid mewn ysgol neu eglwys, i weld a yw'r un enwau'n digwydd yno.

3. Gwnewch ffeil ar gyfer pob enw, fel taenlen (spreadsheet) neu dabl os oes modd. Mae hyn yn ei gwneud lawer yn haws i ganfod gwahanol ddarnau o wybodaeth, fel blwyddyn marwolaeth, oedran yn marw ac o ble'r oedd y bobl yn dod. Gallai'r meysydd gynnwys:

    - Enw – enwau cyntaf a chyfenw, ac a oeddent yn cael eu nabod wrth unrhyw enwau eraill, fel "Bobi" am "Robert"
    - Rheng
    - Catrawd
    - Lle bu'n ymladd
    - Oed pan fu farw
    - Lle bu farw
    - Safle'r bedd
    - Medalau a enillwyd
    - Rhieni
    - Man lle ganed
    - Aelodau eraill o'r teulu agosaf
    - Cofnod yng nghyfrifiad 1911 (a chyfrifiad 1901)
    - Unrhyw wybodaeth arall am y person, e.e. a oedd yn aelod o fand

4. Er mwyn ymchwilio i'r rhai a fu farw, dechreuwch trwy edrych ar wefan Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad (CWGC).

    www.cwgc.org

    Cewch ei chwilio am ddim ac, os yw'r sawl yr ydych yn chwilio amdano ar y gofrestr, fe welwch ei enw, ei rif, ei uned a safle ei fedd.

- Mae gan y CWGC gofrestr ar gyfer pob man lle ceir beddau rhyfel a gall fod cofebion yno hefyd. Mae'n hawdd chwilio trwy roi cyfenw a llythrennau blaen neu enw cyntaf pawb sydd ar y gofeb. Mae'n fwy na thebyg y bydd y wefan yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r man lle claddwyd y person hwnnw.
- Gallwch chwilio'r wefan hefyd yn ôl lleoliad y beddau rhyfel (a'r cofebion cysylltiedig) ym Mhowys ond nid yn ôl y cofebion rhyfel eu hunain..

**5.** Rhowch y manylion a welir ar y wefan ar eich taenlen fel y gallwch wneud rhagor o waith ymchwil a didoli.

Efallai y gwelwch nad yw gwefan CWGC yn cynnwys manylion perthynas agosaf rhywun a laddwyd. Gan amlaf, y rheswm dros hyn yw ei bod wedi cymryd hyd at 15 mlynedd ar ôl y rhyfel i'r Comisiwn gysylltu â theuluoedd y rhai a fu farw, ac erbyn hynny roedd llawer wedi symud neu farw. Cafodd rhai cofnodion eu diweddaru pan sefydlwyd y wefan.

Rheswm arall yw mai dyddiad olaf y Comisiwn ar gyfer coffáu â charreg fedd, ac felly ar gyfer cynnwys rhywun yn y cofnodion, oedd 31 Awst 1921. Bu farw llawer o ddynion ar ôl y dyddiad hwnnw o ganlyniad i anafiadau a gawsant yn y rhyfel ac efallai eu bod wedi'u cynnwys ar gofeb ond ni fyddant wedi'u cynnwys yng nghofnodion CWGC.

Gall fod modd dod o hyd i rai o'r dynion hyn trwy'r Cofnodion Pensiwn neu efallai y bydd y llythrennau SWB (Silver War Badge) ar eu Cerdyn Mynegai Medalau. Bathodyn lapel oedd hwn a oedd yn dangos eu bod wedi gwasanaethu ac wedi'u rhyddhau oherwydd anafiadau neu salwch.

**6.** Cymharwch eich rhestr o enwau o'r chwiliad ar y wefan â'r enwau ar eich cofeb ac ychwanegwch rai os oes angen.

**7.** Chwiliwch wefannau eraill fel Ancestry a Find My Past i gasglu rhagor o wybodaeth, fel dyddiadau a manylion teuluol.

*www.ancestry.co.uk* *www.findmypast.co.uk*

- Rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch wrth chwilio ar y wefan.
- Chwiliwch mewn sectorau fel 'Military' (yn cynnwys rhai a fu farw), 'Census', 'Births, Marriages and Deaths'.
- Gwnewch yn siwr fod y manylion yn gywir trwy gymharu â'r wybodaeth sydd gennych eisoes.
- Chwiliwch sectorau eraill fel 'Professions' neu 'Parish'.
- Rhowch y manylion yn y ffeiliau priodol er mwyn adeiladu hanes pobl.
- Chwiliwch am rieni a pherthnasau os bydd hyn yn ychwanegu mwy at y stori.

**8.** Chwiliwch trwy gasgliadau o archifau sy'n ymwneud â'r rhyfel. Yn Archifdy Powys yn Llandrindod y mae archifau'r sir. Dyma'r gronfa swyddogol o gofnodion sir Powys a'r tair sir a unwyd i greu Powys sef Brycheiniog, Trefaldwyn a Maesyfed. Mae llawer o ddeunyddiau perthnasol, yn cynnwys copïau o restrau, cofnodion medalau a gwybodaeth arall o'r Archifdy

Cenedlaethol yn Kew i'w gweld yn Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol (Aberhonddu). Mae gan Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig yng Nghaernarfon arddangosiadau gwych am hanes y gatrawd honno. Mae gan rai llyfrgelloedd lleol, ymddiriedolaethau archaeolegol ac amgueddfeydd gofnodion hefyd. Gallech fod yn dymuno ymchwilio gan ddefnyddio:

- Papurau newydd a chylchgronau lleol. Gall fod copïau o'r rhain yn eich amgueddfa neu'ch llyfrgell leol, a gallant fod i'w gweld ar lein. Chwiliwch am ysgrifau coffa a chofnodion eraill o farwolaethau ar gyfer y bobl a enwir ar y gofeb. Efallai y bydd yno erthyglau am y gofeb hefyd, y gwaith adeiladu a chysegru, ac apeliadau am enwau i'w cynnwys ar y gofeb.
- Trafodion a chyhoeddiadau eraill a gyhoeddwyd gan gymdeithasau hanes lleol neu grwpiau eraill.
- Dyddiaduron rhyfel y catrodau. Y cofnodion dyddiol a gedwid gan bob uned yn ystod y rhyfel oedd y rhain; roeddent yn cofnodi hynt yr uned yn ystod yr ymladd. Gallent gynnwys cyfeirnodau map, enwau'r rhai a laddwyd, enwau unigol a'r medalau a enillwyd.

**9.** Holwch yn eich tref neu'ch pentref am ragor o wybodaeth. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd.

- Defnyddiwch y cyfryngau lleol i apelio am wybodaeth ac i roi cyhoeddusrwydd i'ch prosiect. Cysylltwch â'r papurau lleol, a gorsafoedd radio a theledu, i sôn am y prosiect a gofyn iddynt roi cyhoeddusrwydd i'ch cais am wybodaeth. Gallwch hefyd ysgrifennu llythyr i'w gyhoeddi yn gofyn am wybodaeth.
- Gofynnwch i bapurau newydd am archifau neu storïau sydd ganddynt.
- Chwiliwch yn eich llyfrgell leol neu ar y rhyngrwyd am wybodaeth a ffotograffau.
- Gofynnwch i sefydliadau lleol, fel amgueddfeydd, llyfrgelloedd, ysgolion, clybiau a chymdeithasau am wybodaeth.
- Trefnwch achlysur atgofion gan wahodd pobl yr ardal i ddod â ffotograffau, memorabilia a phethau'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Gall y gweithgarwch hwn archwilio'r cysylltiadau rhwng y gymuned ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a'r gymuned fel y mae heddiw – faint o'r teuluoedd sy'n dal i fyw yn yr ardal, pwy sy'n ddisgynyddion uniongyrchol, beth oedd yr effeithiau ar eu bywydau?

**10.** Casglwch yr holl wybodaeth a phenderfynu beth rydych am ei wneud â hi!

Wrth i chi chwilio, rydych yn debygol o gasglu llawer o wybodaeth. Gall hyn gynnwys:

- Y manylion a nodwyd yn eich taenlen (spreadsheet).
- Ffotograffau o'r gofeb yn awr a phan godwyd hi.
- Copïau o erthyglau o bapurau newydd a chylchgronau.
- Copïau o gofnodion mewn archifdai a swyddfeydd cofrestru, cartau achau (family trees).
- Copïau o ddyddiaduron, ffotograffau, llythyron a memorabilia eraill o'r cyfnod.
- Manylion o ddyddiaduron rhyfel pob catrawd.
- Adroddiadau yn y colofnau marwolaethau a chofnodion eraill o farwolaethau.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

## Syniadau ar gyfer ymchwilio

- Cofiwch bod sawl ffordd o sillafu rhai enwau fel Morris, Morries, Morriss, Mores; Davis a Davies.
- Mae trefn yr enwau ar gofebion rhyfel yn amrywio. Er enghraifft, cânt eu rhestru yn nhrefn yr wyddor gan amlaf, ond weithiau maent yn nhrefn eu marwolaeth; neu gyda'r swyddogion uchaf yn gyntaf, neu fesul catrawd. Ar rai cofebion, doedd dim lle ar waelod y gofeb a rhoddwyd enwau rhai o'r bobl a fu farw ar ddiwedd y rhyfel uwchben y rhai a fu farw ym 1914.
- Gall rheng rhywun fod yn ddryslyd. Er enghraifft, ceir rheng Signalwr yn y fyddin heddiw, ond swydd oedd hi yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Gellir defnyddio dim ond llythyren yn lle enw uned a gall hyn achosi dryswch. Er enghraifft, fel rheol, caiff y Royal Naval Division ei ysgrifennu fel RND ond dyna yw llythrennau y Royal North Devon Regiment hefyd.
- Mae pobl yn gwneud camgymeriadau, felly edrychwch dros bopeth ddwywaith a thair gwaith. Mae camgymeriadau mewn llawer o ffynonellau gwybodaeth ac felly mae'n bwysig ceisio cael dwy ffynhonnell ar gyfer popeth os oes modd.
- Rhestrwch eich ffynonellau – efallai y bydd angen i chi fynd yn ôl at y ffynhonnell honno i gael rhagor o wybodaeth wedyn.
- Gofalwch fod eich ffynonellau gwybodaeth yn ddibynadwy.
- Croes-gyfeiriwch eich ffynonellau data. Gwiriwch y rhestrau ar bob cofeb yn yr ardal, cofnodion ysgolion, a manylion aelodau clybiau a chymdeithasau.
- Mae rhai cofebion rhyfel wedi'u colli. Roedd rhai mewn capeli, eglwysi neu fynwentydd, ac mae'r rheiny wedi'u cau a'u gwerthu er mwyn codi tai neu ddatblygiadau eraill; mae rhai eraill wedi'u difrodi gan dân neu eu dymchwel.
- Diffiniwch waith eich prosiect yn glir. Penderfynwch beth rydych chi am ei wneud – neu mae'n hawdd mynd i bob man.
- Holwch beth y mae grwpiau, ysgolion a chymdeithasau eraill yn ei wneud i goffáu'r canmlwyddiant, a beth maen nhw eisoes wedi'i wneud. Dydych chi ddim am ailddyfeisio'r olwyn!

Ar ôl i chi ymchwilio i'ch cofeb chi, gofynnir i chi gysylltu â Thîm Prosiect Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys fel y gallwn ni gadw cofnod o'r wybodaeth. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd:

- Gallwch lwytho'r manylion ar wefan y prosiect:

*www.powys.gov.uk/cofebionrhyfel*

- Gallwch ebostio copi i'r tîm: warmemorials@powys.gov.uk
- Gallwch anfon copi trwy'r post at:

  Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys,
  Neuadd y Sir, Llandrindod,
  Powys, LD1 5LG

- Gallwch ffonio Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys i roi'r wybodaeth, ar:

  0845 6027030 neu 01597 827460



Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

## Gwefannau defnyddiol

*www.cwgc.org*

Gwefan Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad.

*www.ancestry.co.uk*

Y llyfrgell ar-lein fwyaf yn y byd o wybodaeth am hanes teuluoedd. Mae gan y wefan gofnodion cyfrifiadau, cofnodion genedigaethau, marwolaethau a phriodasau, cofnodion milwrol, cofnodion plwyfi a chofnodion eraill.

*www.findmypast.co.uk*

Mae gan y wefan hon gofnodion cyfrifiadau, cofnodion genedigaethau, marwolaethau a phriodasau, cofnodion plwyfi, cofnodion teithio ac ymfudo, cofnodion y lluoedd arfog a rhyfeloedd, a phapurau newydd hanesyddol o Brydain.

*www.llgc.org.uk*

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru lyfrau, mapiau, llawysgrifau, archifau, llyfryddiaethau, lluniau a ffotograffau'n ymwneud â hanes a diwylliant Cymru. Mae swm enfawr o wybodaeth ar gael ar-lein. Mae'n cynnwys:

*'Papurau Newydd Cymru Arlein'*

*www.amgueddfacymru.ac.uk*

Mae manylion y casgliadau, gwaith ymchwil, digwyddiadau ac arddangosfeydd ar wefan Amgueddfa Cymru.

*www.casgliadywerincymru.co.uk*

Mae'r wefan hon yn cynnwys miloedd o luniau a data am lawer o agweddau ar fywyd a diwylliant Cymru.

*www.gtj.org.uk*

Cyfoeth o wybodaeth drwyadl, ffotograffau, lluniau a llythyron o amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai yng Nghymru.

*www.rcahmw.gov.uk*

Mae gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru lawer o adnoddau am amgylchedd hanesyddol Cymru.

*www.cadw.cymru.gov.uk*

Gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

*www.bbc.co.uk/ww1*

Llu o straeon diddorol a chysylltiadau â phodlediadau a rhaglenni a ddarlledwyd yn ddiweddar am y Rhyfel Byd Cyntaf.

*www.1901censusonline.com*

Gallwch chwilio am dros 400 miliwn o bobl oedd yn byw yng Nghymru a Lloegr rhwng 1841 a 1901.

*www.1911census.co.uk*

Cofnod o bawb oedd yn byw yng Nghymru a Lloegr ym 1911.



Y dudalen nesaf

*www.postalheritage.org.uk/memorials*

Gallwch ddefnyddio'r wefan hon i chwilio am holl gofebion rhyfel sydd ar safleoedd sy'n eiddo i'r Post Brenhinol. Mae'n cynnwys gwybodaeth a rhai ffotograffau.

*www.warmemorials.org*

Mae'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel (The War Memorials Trust) yn rhoi gwybodaeth a chyngor i unrhyw un sy'n ymddiddori mewn cofebion rhyfel. Mae hefyd yn rhedeg cynllun grantiau ar gyfer trwsio a gwneud gwaith cadwraeth ar gofebion.

*www.roll-of-honour.com*

Gwefan yn ymwneud â dynion a menywod a fu farw mewn rhyfeloedd. Mae'n rhestru cofebion mewn nifer o siroedd y Deyrnas Unedig. Rhestrir ychydig o rai Powys.

*www.forces-war-records.co.uk*

Mae gan Forces War Records gronfa ddata o dros 6 miliwn o gofnodion milwrol. Mae'n nodi ym mha uned filwrol yr oeddent yn gwasanaethu, ym mha frwydrau y buont yn ymladd a sut brofiad oedd hynny iddynt.

*www.ww1cemeteries.com*

Canllaw i fynwentydd milwrol a chofebion ym mhedwar ban byd.

*www.nationalarchives.gov.uk*

Yr Archifau Cenedlaethol yw archif y llywodraeth ar gyfer y Deyrnas Unedig.

*www.greatwar.co.uk*

Gwefan sy'n rhoi trosolwg o feysydd rhyfel y Rhyfel Byd Cyntaf ar Ffrynt y Gorllewin. Mae'n dangos lle maent a beth sydd i'w weld yno heddiw.

*www.ukniwm.org.uk*

Archif Cofebion Rhyfel yr Imperial War Museum.

*www.1914-1918.net*

The Long, Long Trail – gwefan am filwyr, unedau, catrodau a brwydrau Byddin Prydain yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

*www.britishnewspaperarchive.co.uk*

Mae gan Archif Papurau Newydd Prydain dros 200 mlynedd o bapurau newydd.

*www.royalwelsh.org.uk*

Mae gwefan Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol yn cynnwys gwybodaeth am y gatrawd, yr amgueddfa a'i gwasanaethau a'i harchifau. Mae'n cynnwys taflenni defnyddiol hefyd.

*www.cpat.org.uk*

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yn gweithio i warchod, cofnodi a dehongli'r dirwedd hanesyddol. Mae ei gwefan yn cynnwys manylion prosiectau, ei newyddlen a gwasanaethau eraill.

Mae gan wefan y Cyngor Sir fanylion llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifdy'r sir.

*www.Powys.gov.uk*

Y dudalen nesaf

## Llefydd i gael gwybod rhagor

Yn ogystal â'r llu o wefannau sy'n trafod y Rhyfel Byd Cyntaf, cewch wybodaeth fanwl a phenodol am y Rhyfel yng Nghymru ac ym Mhowys yn y llyfrgelloedd a'r amgueddfeydd cenedlaethol a sirol. Mae gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys lyfrgell hefyd ac adnoddau eraill â defnyddiau perthnasol.

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a llyfrgelloedd Powys bob math o adnoddau a dyma'r llefydd gorau i ddechrau ymchwilio i'ch cofeb ryfel. Mae llawer iawn o ddeunyddiau am hanes catrodau lleol Powys i'w gweld yn yr Amgueddfa Gatrodol yn Aberhonddu. Mae gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac amgueddfeydd ym Mhowys raglenni o arddangosfeydd a digwyddiadau i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae gan yr amgueddfeydd gasgliadau o lythyron, dyddiaduron, ffotograffau, delweddau ac arteffactau eraill sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae rhai'n cael eu harddangos ac eraill mewn storfeydd. Mae'r amgueddfeydd yn llefydd da i weld enghreifftiau o'r mathau o lythyron, dyddiaduron a memorabilia sydd i'w cael o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n annhebygol y bydd ganddynt wybodaeth benodol am eich cofeb ryfel chi. Cysylltwch â'r amgueddfeydd a'r llyfrgelloedd cyn ymweld â nhw i holi pa ddeunyddiau sydd ganddynt ar gael. Efallai y byddant yn gallu trefnu i gael eitemau o'r storfa i chi.

Mae copïau o bapurau newydd lleol i'w cael gan Archifdy Powys a'r prif lyfrgelloedd. Ceir rhai copïau microffurf, ac mewn rhai llefydd ceir cofnodion Geni, Priodi a Marw ar ffurf ddigidol. Yn aml, roedd papurau lleol yn cynnwys adroddiadau gan y Swyddfa Ryfel am fataliynau ac unedau'r ardal, yn dweud i ble'r aeth yr unedau a pha filwyr a anfonwyd adref oherwydd anafiadau a salwch, ynghyd ag adroddiadau am farwolaethau lleol.

Mae gan holl lyfrgelloedd y sir nifer o lyfrau a deunyddiau eraill am hanes lleol a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn llyfrgelloedd Aberhonddu, y Drenewydd a Llandrindod, mae copïau o gyfeirlyfrau masnachol, papurau newydd, cyfnodolion a chyhoeddiadau hanes lleol. Mae data am yr hen Sir Frycheiniog yn llyfrgell Aberhonddu; mae gan lyfrgell y Drenewydd ddata am yr hen Sir Drefaldwyn ac mae gan Wasanaeth Ymchwil Archifau Powys ddata am yr hen Sir Faesyfed. Ceir rhestr o gyhoeddiadau am hanes lleol yng nghatalog y llyfrgell ac yn Archifdy Powys.

Yn y llyfrgelloedd, ceir deunyddiau printiedig, catalogau, offer darllen microffilm, a chyfrifiaduron sydd ar gael i unigolion a grwpiau i'w defnyddio am ddim. Mae angen trefnu ymlaen llaw i ddefnyddio'r cyfrifiaduron a'r offer darllen microffilm. Yn ogystal, mae'r llyfrgelloedd yn cynnig mynediad am ddim i ddwy wefan ar gyfer pobl sy'n ymchwilio:


*www.ancestry.co.uk*    *www.findmypast.co.uk*

**Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol yn Aberhonddu**
Y Baracs, Aberhonddu, Powys, LD3 7EB
Ffôn: 01874 613310 Ffacs: 01874 613275
info@royalwelsh.org.uk

Mae casgliad gwych o arteffactau milwrol i'w gweld yn yr Amgueddfa Gatrodol, yn adrodd peth o hanes catrawd y Cymry Brenhinol a rhai o'i rhagflaenwyr: Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Catrawd Frenhinol Cymru, Cyffinwyr De Cymru, y Gatrawd Gymreig a Chatrawd Sir Fynwy. Yn ogystal, ceir yn yr amgueddfa archifau helaeth am y catrodau, yn cynnwys copïau o lawer o'r deunyddiau sydd yn yr Archifau Cenedlaethol yn Kew.

Mae'r Amgueddfa Gatrodol yn cynnig gwasanaeth addysg i ysgolion a grwpiau eraill a gall drefnu ymweliadau a sgyrsiau wedi'u trefnu'n bwrpasol. Ymhlith adnoddau'r amgueddfa mae:

- Rhestrau gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad o'r bobl o Bowys a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Rhestrau o'r rhai a fu farw.
- Y 'Llyfrau Coch' a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ryfel yn rhestru'r milwyr a fu farw yn rhyfel 1914-18.
- Copïau o ddyddiaduron rhyfel tair Catrawd – Cyffinwyr De Cymru, Catrawd Sir Fynwy a'r Gatrawd Gymreig. Yn yr Archifau Cenedlaethol yn Kew y mae'r gwreiddiol. Yn Kew y mae dyddiaduron rhyfel y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig hefyd.
- Copïau o'r rhestrau o'r rhai a gafodd fedalau – mae'r gwreiddiol yn yr Archifau Cenedlaethol.
- Copïau o rai o'r gwobrau am ddewrder a gyhoeddwyd yn y London Gazette.
- Nifer o daflenni ffeithiau ar eu gwefan i'ch helpu i ddysgu am y gwahanol gatrodau sy'n gysylltiedig â Phowys a rhestr o wefannau eraill sy'n rhoi gwybodaeth am filwyr unigol.
- Rhai eitemau personol, preifat gan filwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf, fel dyddiaduron a ffotograffau.


3.
Appendix.

1915.
December.

15th. Battalion paraded 8 a.m. with Transport and also Transport from 11th. R.W.F. (12 wagons). Battalion moved to spot 1½ miles N. of BALDZA where afterwards H.Q. Camp was established. Battalion arrived 2 p.m. and pitched Bivouacs. Work on AKBUNAR ROAD from 4 p m - 5 p m.

16th. Work on AKBUNAR ROAD continued until dark.

17th. Work on AKBUNAR ROAD continued. Lt. C.D. Davies to Hospital.

18th. A and B Companies work on roads. C Company on first line trenches. D Company outposted. First line trenches marked out.

19th. Whole Battalion on Front line trenches. Distinctive nomenclature adopted for hills etc. on front line.

20th. Work on roads and front line.

21st. A.B.D Companies work on roads. C Company on 2nd. line. C.O's dugout commenced. 2/Lt. Morgan Guard from MONASTIR ROAD Camp rejoined.

Battalion on Front line and roads.

22nd. Battalion on Front line and roads.

23rd. Tents issued. Battalion on front line and roads. Commencement of 2nd. Line.

24th. CHRISTMAS DAY. Half Holiday.

25th. A and D Companies temporarily attached to 7th. Bn. S.W.B. and moved to Camp immediately behind REDAN HILL. B and C Companies on roads.

26th. B and C Companies on roads remaining Companies on front line under 7th. S.W.B.

27th. A and D Companies work on front line trenches. B and C Companies work on roads under supervision of R.E.

28th. A and D Companies on front line. B Company on roads. C Company on special work under R.E.

29th.

## Awgrymiadau gan yr arbenigwyr




- 31 Awst 1921 oedd y dyddiad olaf i restru pobl a fu farw ar ôl gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd beth amser ar ôl Diwrnod y Cadoediad er mwyn cynnwys y llu o bobl a fu farw o'u hanafiadau ar ôl y rhyfel.
- Mae'r meini prawf ar gyfer cynnwys pobl ar gofeb ryfel yn amywio o gyngor i gyngor. Roedd rhai cynghorau yn cynnwys pobl a aned yn y cylch ar eu cofeb. Roedd cynghorau eraill yn cynnwys pobl a fu'n gweithio yn yr ardal neu oedd â chysylltiad teuluol â'r ardal.
- Dim ond ar un gofeb roedd pobl i fod i gael eu rhestru ond mae rhai wedi'u rhestru ar sawl cofeb. Mae rhai pobl wedi'u cynnwys yn rhestr y gwroniaid yn eu hysgol neu weithle ac mewn llyfr coffadwriaeth yn ogystal ag ar gofeb ryfel eu tref neu bentref.
- Yn y 1920au y codwyd y rhan fwyaf o gofebau rhyfel, ond roedd rhai'n dal i gael eu codi tan ddiwedd y 1930au. Cymerodd amser i'r cynghorau gasglu enwau'r bobl oedd i'w rhestru ar y gofeb ac fe gymerodd amser hefyd i godi'r arian ar gyfer y gofeb – trwy danysgrifiad cyhoeddus yn aml.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf




- Nid yw cofebau rhyfel yn rhestru pawb o'r pentref neu'r dref honno a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Gall fod sawl rheswm dros beidio â chynnwys enw rhywun yn y rhestr ar gofeb ryfel. Gallai fod yn gamgymeriad syml, neu nad oedd eu teulu'n dymuno i'w henwau gael eu cynnwys ar y gofeb, neu fod y teulu wedi symud o'r ardal.
- Cofnodion a losgwyd. Collwyd cofnodion llawer o filwyr cyffredin y Rhyfel Byd Cyntaf yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan gafodd yr Archifdy lle cedwid nhw yn Arundel Street yn Llundain ei fomio a'i losgi ym 1941. Dinistrwyd tua 60% o'r cofnodion. Cafodd llawer o'r rhai a achubwyd eu difrodi gan y tân; mae olion mwg arnynt ac mae'r ymylon wedi llosgi.
- Mae tua 2.8 miliwn o gofnodion o'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi goroesi.
- Rhoddwyd bathodynnau rhyfel arian i filwyr a anafwyd. Mae'r fedal yn rhoi rhif unigryw i bob milwr ac yn nodi lle roedd wedi listio.






## Catrodau yng Nghymru

Roedd pedair catrawd o filwyr traed yn Gymru.

### 1. Cyffinwyr De Cymru

- Catrawd o filwyr traed ym Myddin Prydain. Ffurfiwyd y gatrawd gyntaf yn 1689. Buont yn gwasanaethu mewn nifer o frwydrau, yn cynnwys Rhyfel Chwyldro America, brwydrau yn India, y Rhyfel Zulu a'r Rhyfel yn erbyn y Boeriaid, cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Yn Aberhonddu yr oedd eu pencadlys ac o dde Cymru, yn bennaf, yr oeddent yn recriwtio.
- Roedd dau fataliwn parhaol ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd un ohonynt yn Tsieina pan gyhoeddwyd y rhyfel. Aeth yr ail fataliwn parhaol i Ffrainc fel rhan o Fyddin Ymgyrchol Prydain, a anfonwyd i ardal Ypres ar Ffrynt y Gorllewin pan ddechreuwyd ymladd yn y ffosydd ym 1914.
- Aberhonddu oedd prif ardal recriwtio Cyffinwyr De Cymru.
- Ar ôl eu recriwtio, anfonwyd y milwyr i wersylloedd hyfforddi ym Mharc Cinmel ym Modelwyddan, ger Abergele yn y gogledd.
- Aeth bataliynau i Thesalonica, Palesteina a Galipoli.
- Listiodd rhwng 1200 a 1400 o ddynion yn Aberhonddu.
- Bu'r Cyffinwyr ar faes y gad mewn sawl gwahanol le yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Unwyd Cyffinwyr De Cymru, y Gatrawd Gymreig a'r Ffiwsilwyr Brenhinol i fod yn 38ain Adran Gymreig, a elwir hefyd yn Adran Gymreig Lloyd George.
- Daethant yn rhan o Gatrawd Frenhinol Cymru ym 1969 ac erbyn hyn maent yn rhan o'r Cymry Brenhinol.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

## 2. Catrawd Sir Fynwy



- Catrawd o filwyr traed tiriogaethol oedd Catrawd Sir Fynwy. Fe'i ffurfiwyd yn Sir Fynwy yn 1859 i fod yn uned wirfoddol o reifflwyr.
- Daeth tair o fataliynau Corfflu Reifflwyr Gwirfoddol Sir Fynwy – y 1af, yr 2il a'r 3ydd – yn rhan o Gyffinwyr De Cymru yn 1881.
- Ymunodd llawer o lowyr â Chatrawd Sir Fynwy.
- Aethant i Ffrainc a Fflandrys a dioddef llawer o golledion yn Ail Frwydr Ypres yn 1915.
- Daeth Catrawd Sir Fynwy yn rhan o Gatrawd Frenhinol Cymru yn 2006 ac erbyn hyn maent yn rhan o'r Cymry Brenhinol.

## 3. Y Gatrawd Gymreig

- Roedd 34 bataliwn yn y Gatrawd Gymreig yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Buont yn gwasanaethu mewn sawl ardal wahanol ond anfonwyd y rhan fwyaf o'r milwyr i Ffrainc a Gwlad Belg.



- Bu 19 o'r 34 bataliwn yn ymladd dramor a chafodd bron 8,000 o'u swyddogion a'u milwyr eu lladd neu buont farw o'u hanafiadau neu afiechydon cysylltiedig â'r rhyfel.

## 4. Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig




- Catrawd o filwyr traed ym Myddin Prydain, a ddechreuodd fel y 23ain Gatrawd ar Droed ym 1689 ac yna ddod yn Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig – Royal Welsh Fusiliers ym 1881 a Royal Welch Fusiliers ym 1920.
- Roeddent yn recriwtio o ganolbarth a gogledd Cymru.
- Cawsant golledion erchyll ym mrwydr Coed Mametz yn 1916.
- Roeddent ymhlith y rhai a gymerodd ran yn y gêm bêl-droed enwog rhwng milwyr o Brydain, yr Almaen a Ffrainc adeg y Nadolig 1914.
- Bu farw llawer o ddynion o'r 5ed, y 6ed a'r 7fed bataliwn yn Gallipoli ac yna yn yr Aifft a Phalesteina.
- Bu nifer o awduron a beirdd enwog yn gwasanaethu gyda gwahanol fataliynau'r gatrawd yn Ffrainc, yn cynnwys Siegfried Sassoon, Robert Graves, David Jones, Hedd Wyn a Frank Richards.
- Erbyn hyn, maent yn rhan o'r Cymry Brenhinol.



www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

## Casglu storïau lleol

### Achlysur atgofion

Gall achlysuron atgofion fel prynhawn 'Sgwrs dros Baned' neu Sesiwn Galw Heibio fod yn ffordd effeithiol o gasglu storïau pobl am y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwahoddir pobl i ddod â ffotograffau teuluol ac eitemau eraill ynglŷn â'r Rhyfel Byd Cyntaf i'r achlysur ac yna gellir tynnu lluniau ohonynt neu eu sganio ynghyd â nodyn o'u hanes. Gall achlysuron fel hyn ganfod trysorau gwirioneddol oherwydd mae gan rai teuluoedd gasgliad o eitemau oedd yn eiddo i berthnasau a fu yn y rhyfel. Efallai y dônt â medalau, ffotograffau, llythyrau, iwnifform neu eitemau eraill am y rhyfel.

### Pethau i'w hystyried wrth drefnu achlysur atgofion

- Dewiswch le addas – rhywle sy'n hawdd dod o hyd iddo, â lle i barcio gerllaw, toiledau, cyflenwad trydan a lle i grwpiau o fyrddau a chadeiriau.
- Trefnwch i gael nifer o gamerâu a sganiwr ar gael ar y diwrnod.
- Rhowch gyhoeddusrwydd da i'r digwyddiad, a gwahodd grwpiau fel y Lleng Brydeinig.
- Ystyriwch ymweld â chartrefi preswyl, canolfannau dydd a chlybiau cinio i bobl oedrannus.
- Cynigiwch baned.
- Ystyriwch gael arddangosfa fach o bethau'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf i gychwyn trafodaeth ac i fod yn ganolbwynt gweledol ar gyfer yr achlysur.
- Gwahoddwch y Swyddog Cofebion Rhyfel o Gyngor Sir Powys i'r achlysur.





# 6 Beth i'w wneud â'r wybodaeth

Gall darganfod mwy am gofebion rhyfel a'r bobl y mae eu henwau wedi'u cofnodi arnynt esgor ar gasgliad mawr o gofnodion a gwybodaeth. Bydd llawer o hyn o ddiddordeb nid yn unig i ddisgynyddion y rhai a gofnodir ond i'r gymuned yn ehangach. Mae nifer o ffyrdd y gallwch gyflwyno'r wybodaeth fel y gall eraill werthfawrogi'ch gwaith. Gallwch gynhyrchu deunydd dehongli fel taflenni, panel dehongli dan do neu awyr agored, neu lwybr sain. Gallwch hefyd drefnu digwyddiadau a gweithgareddau ar thema'r Rhyfel Byd Cyntaf er mwyn cynnwys y gymuned.

Dyma rai syniadau. Edrychwch ar yr astudiaethau achos yn Adran 7 i weld prosiectau cymunedol y mae cymunedau Powys wedi eu trefnu eisoes.

**Taflen am eich cofeb**

Mae taflen safonol 'papur A4 wedi'i blygu'n dri' yn hawdd i'w chynhyrchu a gellir ei hargraffu ar argraffydd cartref a'i rhannu yn y gymuned. Gall gynnwys crynodeb o'ch ymchwil a ffotograffau a delweddau eraill am eich tref neu'ch pentref yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf er mwyn gosod y cyd-destun hanesyddol. Gallwch gynhyrchu'r daflen eich hunan neu gael rhywun proffesiynol i wneud hynny drosoch.

*Ewch ar wefan yr Association for Heritage Interpretation am restr o gwmnïau sy'n arbenigo mewn dehongli.*

**Pethau i feddwl amdanynt wrth ysgrifennu taflen**

- Peidiwch â defnyddio gormod o ysgrifen. Efallai y byddwch am ei chynhyrchu'n Gymraeg ac yn Saesneg.
- Anelwch at gael cydbwysedd da rhwng ysgrifen, lluniau a gofod.
- Gwnewch hi'n bersonol a chyfeillgar.
- Gwnewch hi'n fywiog ac ysgrifennwch yn yr amser presennol.
- Defnyddiwch hiwmor, yn ofalus, pan fo hynny'n briodol.
- Cyfathrebwch syniadau a chysyniadau, nid dim ond rhestr o ffeithiau.
- Osgowch ystrydebau 'fel y pla'!
- Profwch hi gyda ffrindiau a chydweithwyr.
- Gwnewch hi'n ddiddorol a chofiadwy.

**Panel dehongli**

Gall paneli fod yn ffordd ddefnyddiol o ddehongli cofeb ryfel. Maent yn hygyrch a gallant gyflwyno gwybodaeth sy'n helpu ymwelwyr i werthfawrogi, deall a mwynhau'r hyn y maent yn edrych arno. Mae angen lleoli paneli'n ofalus neu gallant fod yn ymwthgar. Y rheol fel arfer yw y dylid cyfyngu'r testun i tua 200 gair ar bob panel. Os yw'n ddwyieithog, mae hynny'n golygu 100 gair i bob iaith. Rhaid ichi wneud i bob gair gyfri!

**Pethau i feddwl amdanynt wrth baratoi panel dehongli**

- Dewiswch un thema ar gyfer pob panel, a chadwch y peth yn syml.
- Dewiswch y deunydd yn ofalus er mwyn dweud y stori neu'r straeon pwysicaf.
- Trosglwyddwch y wybodaeth gyda phenawdau bachog, paragraff agoriadol a gwybodaeth fanylach.
- Mae dylunio da yn hollbwysig er mwyn denu pobl at y panel – os nad yw wedi'i ddylunio'n dda mae'n debygol na chaiff ei ddarllen gan neb.
- Mae lluniau da yn gwbl angenrheidiol – gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio lluniau o ansawdd uchel (high resolution).
- Mae capsiynau yn ffordd ddefnyddiol o drosglwyddo mwy o wybodaeth.

- Meddyliwch am gynnwys dyfyniadau – maent yn helpu i wneud y dehongli'n fwy personol.
- Meddyliwch sut y bydd y panel yn cael ei wneud a'i osod. Mae'n bwysig ei fod yn cael ei wneud o ddeunyddiau addas a chadarn. Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch ar gyfer y panel. Cysylltwch â Phrosiect Cofebion Rhyfel Powys am gyngor.

Gallwch e-bostio'r tîm ar: warmemorials@powys.gov.uk

Gallwch ysgrifennu at Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

Gallwch ffonio Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys ar: 0845 6027030 / 01597 827460

**Arddangosfa**

Efallai yr hoffech roi arddangosfa at ei gilydd am y prosiect cofebion rhyfel a mynd â hi i neuaddau pentref, ffeiriau lleol a digwyddiadau lleol eraill. Gallai egluro'r gwaith yr ydych wedi ei wneud, dangos eich canlyniadau a gofyn am wybodaeth gan bobl leol eraill. Meddyliwch am y ffordd yr ydych am gyflwyno'ch arddangosfa a'r deunydd yr hoffech ei ddefnyddio. Gallwch ei argraffu ar bapur gwydn, papur wedi ei lamineiddio, plastig fel Foamex neu ddeunydd arall. Gofynnwch i Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys am gyngor. Gellid pinio'r wybodaeth ar waliau, ei chodi ar fyrddau arddangos neu ei hargraffu ar faneri neu daflenni mawr o gerdyn neu Foamex. Os ydych yn meddwl efallai y byddwch am ei ddefnyddio fwy nag unwaith efallai y byddai'n werth benthyg, neu brynu, system arddangos. Mae'r rhain yn amrywio mewn maint, deunydd a chost.

**Pethau i feddwl amdanynt wrth ddatblygu arddangosfa**

- Bydd arnoch angen cyflwyniad i egluro testun yr arddangosfa – rydych chi'n adnabod eich prosiect yn dda iawn ond i rywun sy'n newydd iddo, bydd angen egluro cyd-destun yr hyn rydych wedi bod yn ei wneud.
- Dylech rannu'r wybodaeth yn adrannau gwahanol er mwyn ei gwneud yn hawdd i'w darllen a rhag llethu neb.
- Gosodwch y testun ar uchder y gall y rhan fwyaf o bobl ei ddarllen – yn cynnwys plant a phobl mewn cadeiriau olwyn.
- Mae angen i destun fod yn ddigon mawr i bobl allu ei ddarllen yn hawdd o leiaf fetr i ffwrdd.
- Os bydd gan eich arddangosfa staff, ystyriwch gael pethau y gall pobl afael ynddynt – mae'r rhain yn bwyntiau trafod defnyddiol ac maent yn help i ddenu pobl at yr arddangosfa.
- Meddyliwch am ffyrdd o'i gwneud yn rhyngweithiol – efallai y gellid cynnwys gofod 'post-its' lle gall pobl ysgrifennu eu hatgofion a'u sylwadau eu hunain.
- Cofiwch gynnwys manylion cysylltu a lle gall pob ddarganfod mwy am eich prosiect.

**Taith Rhyfel Byd Cyntaf**

Gall llwybr fod yn ffordd ddychmygus o ddenu teuluoedd a grwpiau ieuenctid i gymryd rhan yn eich prosiect cofebion rhyfel. Gall eu hannog i archwilio'r ardal o amgylch y gofeb a'r dref neu'r pentref y mae wedi'i lleoli ynddi. Gallant ddarganfod mwy am y dreftadaeth a'r nodweddion cudd a darganfod llefydd, golygfeydd a synau arbennig. Gellir cynhyrchu'r daith fel pamffled neu daith sain neu fideo.

Gallai taith ddechrau wrth y gofeb ryfel ac ymweld â gwahanol safleoedd, fel y neuadd bentref lle roedd pobl yn gwirfoddoli ac yn cael eu recriwtio, yr ysgol lle'r addysgwyd y rhai a wirfoddolodd a'r rhai a gafodd eu gorfodi i ymladd a rhai o'r adeiladau a ddefnyddiwyd gan y gwahanol glybiau a chymdeithasau oedd yn gweithredu yn eich tref neu'ch pentref yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

Pethau i feddwl amdanynt wrth ddatblygu'ch taith

- Ar gyfer pwy mae'r daith? Ai ar gyfer pobl leol neu ymwelwyr, teuluoedd, grwpiau ieuenctid neu oedolion?
- Mannau cychwyn a gorffen. Dylid lleoli'r rhain yn rhywle sy'n hawdd dod o hyd iddynt yn y dref neu'r pentref, a gyda rhywle i barcio yn agos. Dylent hefyd fod yn llefydd lle gall grwpiau ymgynnull yn ddiogel, yn ddigon pell o draffig. Yn ddelfrydol dylai'r mannau cychwyn a gorffen fod yn agos at doiledau cyhoeddus.
- Y llwybr. Gwnewch yn siŵr fod y llwybr yn addas i'ch cynulleidfa – ddim yn rhy hir nac yn rhy anodd dod o hyd iddo a'i ddilyn. Dylai fod yn ddiogel, yn ddigon pell o draffig a pheryglon eraill fel afonydd, tir corsiog a llethrau serth.
- Llefydd i stopio ar hyd y daith. Dylai pob un o'r rhain fod yn lle o ddiddordeb a dylai pob un fod â stori ddiddorol ar gyfer y gynulleidfa.
- Materion iechyd a diogelwch. Nodwch y peryglon a gwnewch yn siŵr y gallwch gynnig cymorth cyntaf.
- Asesiad Risg. Efallai y byddai paratoi Asesiad Risg ar gyfer y llwybr yn annog mwy o grwpiau, fel grwpiau ieuenctid, i ddefnyddio'r llwybr.
- Cyhoeddusrwydd. Ar gyfer pwy mae'r llwybr? Sut ewch chi ati i'w hyrwyddo?
- Cyfarwyddiadau ac offer. Bydd angen ichi ddweud wrth y defnyddwyr beth fydd angen iddynt ei wneud er mwyn dilyn y llwybr – ac a fydd angen unrhyw offer, fel mapiau, arnynt. Gallech gynhyrchu taflen bapur i'w dilyn, neu gellid ei ddatblygu fel taflen i'w lawrlwytho, llwybr clywedol neu fel app ar gyfer ffonau clyfar.
- Cliwiau, cyfarwyddiadau, map o'r llwybr ac atebion i'r cliwiau. Bydd angen ichi gynhyrchu'r rhain a'u gwneud ar gael i'r defnyddwyr.
- Cadwch e'n fyr, yn hawdd ac yn hwyliog!

**Cystadleuaeth farddoniaeth**

Mae llawer o bobl yn cofio am y Rhyfel Byd Cyntaf oherwydd y farddoniaeth a ysbrydolwyd ganddo. Ysgrifennodd beirdd fel Wilfred Owen, Siegfried Sassoon a Robert Graves am eu profiadau yn ymladd yn y ffosydd ac am effaith hynny ar eu bywydau nhw ac ar fywydau pobl eraill. Yn fwy diweddar mae beirdd fel Owen Sheers wedi ysgrifennu barddoniaeth a dramâu cyfoes am wrthdaro a'i effaith heddiw. Gallai ysgolion a grwpiau cymunedol drefnu cystadleuaeth farddoniaeth gan wahodd pobl i ysgrifennu cerddi newydd wedi'u hysbrydoli gan y Rhyfel Byd Cyntaf neu gan ryfeloedd mwy diweddar. Gellid perfformio'r cerddi mewn digwyddiad, gweler isod, neu fel fideo byr a/neu eu casglu ar wefan neu eu cyhoeddi.

**Digwyddiadau barddoniaeth a cherddoriaeth**

Mae barddoniaeth a cherddoriaeth wedi bod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru erioed, gyda'r traddodiad hir o roi cadair wrth fwrdd yr Arglwydd i'r bardd a'r cerddor gorau mewn Eisteddfod. Mae digonedd o ddeunydd. Roedd y beirdd Siegfried Sassoon, Robert Graves, David Jones, Hedd Wyn a Frank Richards yn aelodau o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Roedd Saunders Lewis, y bardd a'r ymgyrchydd iaith yn aelod o Gyffinwyr De Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae corff o gerddoriaeth a gyfansoddwyd gan gerddorion a ymladdodd yn y ffosydd. Roedd Ivor Gurney, George Butterworth a Cecil Coles i gyd yn gerddorion a chyfansoddwyr a ymunodd er mwyn gwasanaethu ar y Ffrynt. Ymunodd Ralph Vaughan Williams, a oedd yn 41 ar y pryd, â'r Royal Army Medical Corps. Roedd milwyr dan hyfforddiant a milwyr a oedd yn ymladd yn canu llawer o ganeuon gwerin a chaneuon y 'music halls', gan addasu'r geiriau'n aml er mwyn adlewyrchu eu bywydau eu hunain yn y ffosydd. Ar ddiwedd y rhyfel roedd gan gerddoriaeth dan ddylanwad y jazz newydd o America ran fawr yn y dathliadau.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

Gallwch drefnu adloniant cerddorol neu farddol sy'n rhoi lle i amrediad o gerddi a cherddoriaeth boblogaidd o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf. Gellir cynnwys perfformiadau unigol gan feirdd a cherddorion, darlleniadau, cerddoriaeth gan fandiau, a chanu cynulleidfaol. Mae *Pack up your Troubles in Your Old Kit Bag, There's a Long, Long Trail A-Winding, The Bells of Hell go Ting-a-ling-a-ling, It's a Long Way to Tipperary* a *Roses of Picardy* yn ganeuon poblogaidd o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Pethau i feddwl amdanynt ar gyfer digwyddiad barddoniaeth a/neu gerddoriaeth cymunedol

- Dod o hyd i rywle addas i gynnal y digwyddiad gyda lle i berfformwyr a chynulleidfa, lluniaeth, toiledau a lle i barcio.
- A oes angen system sain?
- Pa sefydliadau lleol a hoffai gymryd rhan – yr ysgol leol, brownies, sgowtiaid, a grwpiau ieuenctid lleol, clybiau a chymdeithasau, grwpiau darllen, grwpiau henoed, trigolion cartrefi gofal?
- Perfformwyr proffesiynol a/neu leol?
- Hyrwyddo a chyhoeddusrwydd – ystyriwch bosteri, taflenni, gwahoddiadau i grwpiau lleol, datganiadau i'r wasg ar gyfer papurau newydd lleol a gorsafoedd radio a theledu.
- Gwerthu tocynnau – ymhle fyddwch chi'n gwerthu tocynnau?
- Ai digwyddiad i godi arian fydd y digwyddiad?
- Rhaid ystyried materion iechyd a diogelwch.
- A oes angen trwydded arnoch?
- A oes angen yswiriant arnoch?
- Rhowch wahoddiad i Swyddog Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys i'r digwyddiad

Os ydych yn cynllunio prosiect neu ddigwyddiad o gwmpas eich ymchwil neu eich cofeb leol, rhowch wybod i Dîm Prosiect Cofebion Rhyfel Cyngor Sir Powys – efallai y gallwn eich helpu. Gallwch wneud hyn mewn nifer o ffyrdd:

- Gallwch e-bostio'r tîm: warmemorials@powys.gov.uk
- Gallwch gysylltu â'r tîm drwy'r post:

  Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys,
  Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

- Gallwch ffonio Swyddog Prosiect Cofebion Rhyfel Powys ar:

  0845 6027030 neu 01597 827460

Ar ôl ichi gwblhau'ch prosiect, anfonwch unrhyw ddeunyddiau, neu ffotograffau o'ch gweithgareddau atom er mwyn inni allu eu cynnwys ar wefan Prosiect Cofebion Rhyfel Powys. Byddwn hefyd yn cynnwys detholiad o'r prosiectau mewn llyfr y byddwn yn ei gynhyrchu ar ddiwedd y prosiect.

# 7 Astudiaethau Achos

## Grŵp Hanes Teulu Prifysgol y Drydedd Oes, Aberhonddu

Steve Morris, Arweinydd y Prosiect

**Beth a gynhyrchwyd gennym**
Llyfr am y bobl a restrir ar y Gofeb Ryfel yn Eglwys y Santes Fair, Aberhonddu. Rydym hefyd yn datblygu gwefan fel y gellir diweddaru'r data'n hawdd wrth i ragor o wybodaeth gael ei chasglu.

**Pam dechrau'r ymchwil**
Cafodd Prifysgol y Drydedd Oes (U3A) Aberhonddu sgwrs am Ddydd y Cofio a'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac ysbrydolodd hynny ni i ymchwilio i'r bobl a enwir ar y gofeb ryfel yn Eglwys y Santes Fair. Dechreuwyd ar y gwaith yn Rhagfyr 2011, gan anelu at gynhyrchu bywgraffiad byr i bob person a restrir ar y gofeb mewn pryd i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Sut y trefnwyd yr ymchwil**
Roedd 10 ohonom yn y grŵp. Dechreuwyd drwy gofnodi pob enw ar y gofeb. Dechreuwyd ffeil gyfrifiadurol i bob un o'r 92 o bobl a restrir ar y gofeb ryfel y tu allan i Eglwys y Santes Fair. Rhannwyd y nifer rhyngom ac felly roedd pawb yn ymchwilio i grŵp o 10 o bobl. Rhedwyd y peth fel prosiect. Roedd gennym gynllun prosiect ac roeddem yn cyfarfod bob mis i adrodd beth roedd pob un ohonom wedi ei wneud. Roedd yn help garw cael adroddiadau rheolaidd gan fod hynny'n ein hysbrydoli i ddal ati ac i'n cadw ar amser. Roeddem yn gwybod, er enghraifft, ein bod wedi dod o hyd i 90 o'r rhestr wreiddiol erbyn Mawrth 2013.

**Y gwefannau a'r adnoddau eraill a ddefnyddiwyd**
Defnyddiwyd tair prif wefan:

*Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad*

*www.ancestry.co.uk*

*www.findmypast.co.uk*

Dechreuwyd drwy edrych am yr enwau ar wefan Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, ac roedd hynny'n ddechrau da ar gyfer rhai o'r enwau. Cawsom hyd i gatrodau a rhifau gwasanaethu rhai pobl, ond methwyd dod o hyd i unrhyw gofnodion ar gyfer eraill a restrir ar y gofeb.

Defnyddiwyd www.ancestry.com a www.findmypast.co.uk, sydd ar gael yn rhad ac am ddim yn llyfrgelloedd Powys. Mae'n rhaid i unigolion dalu tâl tanysgrifio i gael mynediad at wybodaeth fwy manwl ar y gwefannau hyn. Defnyddiwyd Ancestry i edrych ar Gofnodion Cyfrifiad 1911 a roddodd lawer o wybodaeth inni am rai o'r dynion a'u teuluoedd. Edrychwyd drwy gopïau o'r Brecon and Radnor Express a'r Brecon County Times yn chwilio am erthyglau am y rhyfel a'r gofeb ryfel. Mae copïau o'r papurau newydd hyn ar microfiches o'r newyddion lleol yn y llyfrgell. Mae gan Amgueddfa Brycheiniog hefyd gopïau o'r papurau newydd hyn a gallwch wneud cais am lungopïau o dudalennau penodol, oedd yn haws eu darllen na'r microfiche.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

Mae'r Brecon and Radnor Express wedi sôn am ein prosiect deirgwaith hyd yn hyn, a bob tro mae wedi dod â rhagor o wybodaeth inni gan ddarllenwyr. Anfonwyd llythyr yn apelio am wybodaeth ac wedyn gwnaeth y papur erthygl am ein hymchwil a rhoddodd hynny gysylltiadau lleol da inni yn ogystal â gwybodaeth a memorabilia. Hefyd, cyhoeddodd y papur erthygl am ein prosiect yn cael rhywfaint o arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae wedi bod yn gyhoeddusrwydd defnyddiol iawn.

Cysylltwyd â Chyngor Tref Aberhonddu ac edrychwyd ar gofnodion Mynwent Aberhonddu. Rhoddodd y Cyngor Tref fap inni o'r fynwent, a rhestr o enwau pobl sydd wedi eu claddu yno. Fe wnaethon nhw roi grant bychan inni hefyd, sydd wedi helpu i ariannu'r prosiect.

"Roedd yn dipyn o her gan nad oeddem wedi gwneud gwaith ymchwil fel hyn o'r blaen, ond mae wedi bod yn werth chweil. Mae'r prosiect wedi tyfu ac rydym yn falch iawn ein bod wedi darganfod eitha tipyn o wybodaeth am rai o'r bobl."
Steve Morris, arweinydd prosiect.

**Y prosiect yn tyfu**

Tyfodd y prosiect i fod yn fwy uchelgeisiol wrth inni wneud ein hymchwil. Penderfynwyd y byddem yn ceisio cofnodi pawb o Aberhonddu a fu farw ar ôl bod yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yn rhaid i bob un o'n pobl ni fod â chysylltiad go iawn gydag Aberhonddu – naill ai wedi eu geni yma neu wedi gweithio yn y dref neu wedi symud yma gyda'u teuluoedd. Daethom o hyd i ragor o enwau ar wahanol gofebion o gwmpas y dref. Mae plac coffa yn y gadeirlan ac mae gan y ddwy ysgol uwchradd restr wroniaid yn rhestru'r disgyblion a fu farw yn y rhyfel. Ac wrth gwrs mae'r ysbyty yn gofeb rhyfel – Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog yw ei enw. Mae yno blac sy'n rhestru'r rhai a gwympodd, bentref wrth bentref. Rydym hefyd wedi dod o hyd i rai unigolion o Aberhonddu a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf ond nad ydynt wedi eu rhestru ar unrhyw gofeb yn y dref.

"Mae ychydig bach fel gwneud jig-so, ond heb y llun ar y bocs! Mae llawer o ddarnau bychain o wybodaeth ar gael unwaith ichi ddechrau chwilio, ond mae'n rhaid ichi ddod â nhw at ei gilydd er mwyn gweld y stori."
Steve Morris, arweinydd prosiect.

**Nifer yr enwau'n dyblu**

Yn y diwedd roedd gennym restr o dros 160 o ddynion a oedd â rhyw gysylltiad â thri phlwyf eglwysi'r Santes Fair, Sant Ioan a Dewi Sant yn nhref Aberhonddu. Rydym yn cynhyrchu llyfr gyda'n hymchwil ac rydym am ddatblygu gwefan hefyd fel y gallwn ychwanegu data newydd yn hawdd wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Cyflwynwyd ein hymchwil i'r grŵp U3A yn Nhachwedd 2013, a chafodd ganmoliaeth fawr. Rydym yn dal i ychwanegu at y gronfa ddata. Rydym wedi ennill sawl gwobr am ein hymchwil, yn cynnwys grant cymunedol gan Gwanwyn, gŵyl a gydlynir gan Age Cymru sy'n dathlu creadigrwydd pobl hŷn.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

**Tips**

Defnyddiwyd cronfa ddata Excel i gofnodi'r wybodaeth. Gallwch roi meysydd gwahanol i mewn, fel enw cyntaf, perthynas agosaf, cyfeiriad, dyddiad geni a marw. Mae cael yr holl wybodaeth mewn taenlen yn ei gwneud hi'n llawer haws chwilio am wahanol grwpiau. Er enghraifft os oedden ni am wybod lle yn Aberhonddu roedd ein pobl yn byw ac os oeddem am chwilio drwy ddyddiadau marw. Roedd y ddau beth yn hawdd eu gwneud gan ddefnyddio'r daenlen.

**Rhif catrawd a rhif gwasanaeth yn gwneud ymchwil yn llawer haws**

Mae cael rhifau catrawd a gwasanaeth unigolyn yn ei gwneud hi'n llawer haws ymchwilio i'w stori.

**Gwiriwch a gwiriwch eto**

Croeswiriwch eich data mor aml ag y gallwch. Mae pobl yn gwneud camgymeriadau – rydym wedi dod o hyd i enwau wedi'u camsillafu a dyddiadau anghywir yn ogystal ag enwau sydd wedi eu gadael allan yn llwyr.

**Cadwch nodyn o'ch ffynonellau**

Efallai y byddwch am ailwirio'r data neu'r ymchwil neu ychwanegu rhywbeth yn nes ymlaen.








www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

## Grŵp Hanes Lleol y Drenewydd

David Pugh – Cadeirydd

### Beth gynhyrchwyd

Newtown and Llanllwchaiarn Cenotaph, llyfr A4 yn rhoi bywgraffiad byr o bob un o'r 217 o bobl a restrir ar y gofeb. Mae'r llyfr wedi'i rannu'n ddwy adran; y gyntaf yn cofnodi'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r ail yn cofnodi'r rhai a fu farw yn yr Ail Ryfel Byd.

### Pam dechrau'r ymchwil

Fel grŵp roeddem wedi gwneud llawer o ymchwil am y Drenewydd ac rydym yn gyfarwydd ag enwau'r rhan fwyaf o'r teuluoedd lleol sydd wedi byw yn y Drenewydd a'r pentrefi cyfagos dros y canrifoedd diwethaf. Dechreuom feddwl am benblwyddi'r Rhyfeloedd Byd a sylweddoli nad oedd llyfr yn casglu gwybodaeth am y bobl a restrir ar y Senotaff. Nid oedd cofnod o'r rhai a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn yr eglwysi na'r capeli. Dyma oedd yn ein gyrru – yr awydd i greu rhywbeth i gofnodi straeon y bobl o'r Drenewydd a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Roeddem yn teimlo'i bod yn hollbwysig eu cofio nhw a'r aberth wnaethon nhw drosom ni. Roeddem yn gwybod hefyd, pe na baem yn gwneud yr ymchwil yn fuan, na fyddai'r bobl oedd ag aelodau agos o'r teulu ynghlwm â'r Rhyfel Byd Cyntaf o gwmpas i rannu'r atgofion hynny. Dechreuom o ddifri yn 2002 a chyhoeddi 100 copi o'n llyfr. Mae'r llyfr ar gael gennym mewn fformat electronig hefyd felly gall pobl gael y rheini hefyd.

> *"Ymchwilio i'r bobl ar y Senotaff yw'r peth pwysicaf a wnawn ni fel grŵp byth. Roedd yn waith hir ond roeddem yn teimlo fod yn rhaid inni wneud y gwaith, a'i wneud mor dda â phosib."*
>
> David Pugh

### Sut y trefnwyd yr ymchwil

Roedd tri ohonom yn gwneud y rhan fwyaf o'r ymchwil, a dechreuodd eraill gymryd rhan wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Cymerodd tua saith mlynedd inni o'r dechrau i'r diwedd, er bod ambell i saib wedi bod yn y canol oherwydd problemau iechyd.

Crëwyd taenlen yn cofnodi enwau, rheng a rhif catrawd pobl ac yn y blaen.

Canolbwyntiwyd ar senotaff y dref, ond mae cofebion eraill yn y Drenewydd fel y rhai yn yr ysgol uwchradd, mewn eglwysi a chapeli, ym mhafiliwn y clwb criced lleol a'r hen swyddfa heddlu.

> *"Sylweddolom ein bod ynghanol newid mawr. Pam godwyd y Senotaff, roedd pawb yn y Drenewydd yn adnabod y rhan fwyaf o'r bobl a restrwyd. Nawr, yn gynnar yn yr unfed ganrif ar hugain, ychydig iawn o bobl sy'n cofio'r bobl fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roeddem yn gwybod, pe na baem ni'n gwneud ein hymchwil bryd hynny, na fyddai neb ar ôl yn cofio'r bobl na'u straeon cyn hir."*

Aethom drwy hen gopïau o'r ddau bapur newydd lleol a gyhoeddwyd rhwng 1914 a 1920, The Montgomeryshire Express a The County Times. Edrychom yn ôl hefyd ar ôl-rifynnau The Newtownian, y cylchgrawn lleol. Cymerodd gannoedd o oriau ond datgelodd lawer o wybodaeth. Edrychom ar lythyrau a gyhoeddwyd yn y papur. Rhoddodd hynny lawer o ddata i ni, yn enwedig o lythyrau a gyhoeddwyd hyd at 1916 – roedd llythrau'n cael eu sensro ar ôl hynny.

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos



**Tips**

Roedd Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yng Nghaernarfon o help mawr. Mae ganddynt arddangosfa a gwybodaeth am y gatrawd. Roedd pencadlys y 7fed Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn y Drenewydd felly roedd llawer yn digwydd yma yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl y rhyfel, sefydlodd y Llywodraeth y Ffatrïoedd Hyfforddi, sef canolfannau hyfforddi i gyn-filwyr ddysgu sgiliau newydd fel gwneud basgedi a gwaith coed, ac roedd canolfan yn y Drenewydd.

Gwiriwch eich ffynonellau a chroesgyfeiriwch nhw er mwyn gwneud yn sicr fod y data a ddefnyddir gennych mor ddibynadwy â phosib. Nid oes dim yn gwbl gywir – mae gan hyd yn oed Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad gamgymeriadau yn eu data.

Byddwch yn ymwybodol fod angen delio'n ofalus â pheth o'r data. Daethom o hyd i deuluoedd a oedd wedi eu dychryn gan ein hymchwil. Ni wyddai un teulu bod ganddynt ewythr a fu farw'n y Rhyfel Byd Cyntaf. Darganfu teulu arall fod eu mam wedi cael plentyn arall nad oedden nhw'n gwybod amdano.

Daliwch ati! Roeddem ni'n parhau i chwilio am wybodaeth am bob person, hyd yn oed pan oedd hi'n edrych fel nad oedd dim i ddod o hyd iddo. Mabwysiadwyd 'Agwedd Micawber', yn bendant y byddai 'rhywbeth yn dod i'r fei' ac fel arfer roedd hynny'n wir!

# NEWTOWN AND LLANLLWCHAIARN CENOTAPH

***Biographies of those who fell in the 1914-1918 and 1939-1945 Wars and who are commemorated on the Cenotaph***



www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

| Name | Rank | Service No. |
|---|---|---|
| **BOUND, David Pryce** | Private (Gunner) | 836476 |
| *Date of death* 7.11.1918 | *Place of death* France | *Age* 26 |
| *Regiment, etc.* Royal Field Artillery | *Grave ref. & location or Service Memorial* II E3 Premont British Cemetery, Aisne, France | |



David was born in Llanwnog in 1892, the son of Thomas, a railway platelayer, and Ruth (née Brown) Bound. His siblings were Thomas William, John, Elizabeth Jane, Mary Ellen, Ethel, Ruth Gwendoline, Gladys, Dorothy and Edith Amelia. The family lived at Dingle Cottage, Middle Dolfor Road, Newtown.

David's first employment was as boots at the Elephant & Castle Hotel in Broad Street. He moved on to work for the Cambrian Railways, like his father. He then moved to Manchester and became a tram conductor. He married and had one child.

David enlisted in the RFA in 1914 and went to France the following year. He was wounded in the leg in July 1917. He spent six months in hospital in England and returned to France where he saw continuous service until his death. He died on 7th November 1918 at a casualty clearing station in France.

At the time of his death, his brother, Lance-Corporal John Bound, was a patient at the Montgomeryshire Infirmary, where he had been for some time, suffering from a severe compound fracture of the leg received in action in France in March 1918.

Reports of David appeared in the *Montgomeryshire Express* of 10.12.1918, 29.7.1919 and 11.11.1919 and the *County Times* of 14.12.1918.

Gunner David Pryce Bound is commemorated on the memorials in St David's Church and Zion Baptist Church.

Our birth made us mortal, our death will make us immortal.

Old Proverb



| Name | Rank | Service No. |
|---|---|---|
| **BRAY, George Llewellyn** | Acting Corporal | 31311 |
| *Date of death* 23.4.1917 | *Place of death* France | *Age* 21 |
| *Regiment, etc.* 18th Battalion, Manchester Regiment | *Grave ref. & location or Service Memorial* Arras, Pas de Calais, France | |



George was born in Newtown in 1896, the son of Pryce, a gardener, and Susannah (nee Price) Bray. His siblings were John Edward, Charles Pryce, Gertrude Ann, Ethel, Henry, Frank and George.

In 1901, the Brays were living in Bear's Court, Broad Street. They later moved to Bank Cottage, Broad Street. At one time George was an apprentice with Charles T. Griffiths & Son in Broad Street, Newtown, tailor and draper.

At the time of his joining up, he was working in Prestatyn where, in June 1915, he joined the Manchester Regiment. He was sent to France at Christmas 1915.

George was killed in the Battle of Arras on 23rd April 1917.

References are made to George in the *County Times* of 2.9.1916 and 2.6.1917 and the *Montgomeryshire Express* of 5.6.1917 and 23.4.1918.

Corporal George Llewelyn Bray is commemorated on the memorials in St. David's Church and in the United Reformed Church.

Bray. – In loving memory of my dear son, George Llewellyn Bray, 18th Batt, Manchester Regiment, killed in action somewhere in France on the 23rd April, 1917, in his 20th year.

A better lad no parent had;
He volunteered without being called
To end his life in a foreign land.

From Father, Brothers and Sisters, Broad-street, Newtown.
*Montgomeryshire Express, 23rd April, 1918*



www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon
Beth i'w wneud â'r wybodaeth
Astudiaeth achos

## Llyfrgell Ystradgynlais

Caryl Jones, Llyfrgellydd

### Beth a gynhyrchwyd

Datblygwyd arddangosfa i gofio dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae gan y llyfrgell adnoddau da sy'n cynnwys mynediad at wefannau Ancestry a Find my Past a fersiwn wedi'i digideiddio o'r papur newydd lleol Llais Llafur, Labour Voice. Roeddem hefyd yn gwybod am ymchwil Val Trevallion i gofeb ryfel Ystradgynlais.

### Sut gwnaethpwyd yr ymchwil

Rhestrwyd yr holl enwau ar gofeb ryfel Ystradgynlais a chreu ffeil ar gyfer pob person. Edrychwyd am bob cyfenw yn y gronfa ddata ar gyfer y papur newydd lleol. Gallwch chwilio mynegai genedigaethau, marwolaethau a phriodasau. Rhoddwyd pob enw yn y chwilotwr. Mae'n dweud wrthym ar ba dudalen o'r papur y dylem edrych. Defnyddiwyd gwefannau Ancestry a Find my Past hefyd er mwyn chwilio am wybodaeth a data'r cyfrifiad.

### Beth gynhyrchwyd

Cynhyrchwyd arddangosfa dros dro i'w dangos yn y llyfrgell yn ystod rhan o ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Datblygwyd cerdyn safonol ar gyfer pawb a restrir ar gofeb y dref a dyma graidd yr arddangosfa, ynghyd â llungopïau o erthyglau o'r papurau newydd, mapiau a ffotograffau.

### Tips


Defnyddiwch y cyfleusterau yn llyfrgelloedd Powys er mwyn ymchwilio i hanes y bobl sydd ar gofeb ryfel. Mae gwefannau Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, Ancestry a Find my Past yn hawdd iawn i'w defnyddio.

Mae gennym gopïau wedi eu digideiddio o'r papur newydd lleol Llais Llafur, Labour Voice, yn llyfrgell Ystradgynlais, gyda mynegai o enedigaethau, marwolaethau a phriodasau sy'n ei gwneud yn haws mynd drwy hen rifynnau.

*"Roeddem am wneud arddangosfa i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf ar gyfer y llyfrgell. Roeddwn yn gwybod am waith anhygoel Val Trevallion a gofynnais iddi am gael defnyddio'i gwybodaeth hi. Cytunodd hi a datblygwyd yr arddangosfa o hynny ac o'r deunydd sydd gennym yn y llyfrgell."*

Caryl Jones, Llyfrgellydd ac Ysgrifennydd Cymdeithas Hanes Teulu Ystradgynlais.





...represented by a detachment of ex-soldiers. The following are the names of the fallen, as inscribed on the tablet:—

J. Allen,
D. Austin,
R. Butler,
B. Carr,
J. Carter,
J. T. Chadford,
W. Clifford,
J. H. Cole,
L. Colwill,
H. Corfield,
Cullen,
D. J. Davies,
R. G. Davies,
R. Davies,
H. Davies
R. G. Dawes,
C. De la Haye,
P. Draper,
R. Edwards,
D. Evans,
J. W. Evans,
S. Fletcher,
W. Francis,
G. H. Francis,
H. B. Furness,
D. Griffiths,
D. Griffiths (S.R.),
J. W. Givens,
I. Griffiths,
H. Hazell,
Lewis Holt,
W. Hoskins,
D. Howells,
B. Howells,
D. Hughes,
W. Hull,
W. Hunt,
T. M. James,
J. James,
A. Jones,
J. Johnson,
T. Jones,
W. Jones,
H. S. King,
W. Lewis,
J. Lloyd,
H. Maher,
A. Mainwaring,
A. R. Mallows,
J. Mallows,
Marsden,
J. Marshall,
A. Martin,
H. Martin,
H. Morgan,
R. Morgan,
T. Morgan,
T. J. Morgan,
G. Mountjoy,
A. Palmer,
Phinben,
M. Powell,
W. J. Powell,
E. M. Rees,
A. Richards,
I. Roberts,
F. Russell,
D. J. Samuel
D. Taylor,
R. R. Taylor,
P. Thomas,
T. Thomas,
O. Thomas,
O. Watkins,
C. S. White,
J. Whiting,
W. Williams,
A. Williams,
O. Williams,
O. J. Williams,
J. Williams,
W. T. Williams,
J. Woodhouse,
W. J. Woodhouse,
W. Woodward.

Special hymns were sung, and the Bishop of Swansea, in the course of an impressive address said that they should not look upon the tablet as a decorative ornament, but as a symbol of remembrance of those who had bled and died for the country and their loved ones.

## THOMAS HOWELL DAVIES

CAPTAIN

South Wales Borderers;
11th Bn.

Died on the 6th October 1919

Memorial

St Cynog's Church
Ystradgynlais



Thomas enlisted as a volunteer in August 1914 into the London Rifles (Royal Fusiliers) and was drafted out to France in December of that year. He remained in France till Nov. 1917, when he was sent home for six months training for his commission. On being re-drafted to France he soon worked his way up to the rank of Captain and Acting Major with the Middlesex regiment. He was gassed in France and this undoubtedly caused his death. He was 33 years of age and left a widow and one child.

Further information can be obtained from

Labour Voice newspaper
11th October 1919






Y dudalen nesaf

## The YEARGroup

Val Trevallion, cydlynydd ac awdur

**Beth gynhyrchwyd**

Cynhyrchwyd gwefan, Ystradgynlais War Graves yn rhestru'r rhai a enwir ar Gofeb Ryfel Ystradgynlais a'r mynwentydd lle maent wedi'u claddu neu lle maent yn cael eu cofio.

*www.ystradgynlais-wargraves.co.uk*

**Pam dechrau'n hymchwil**

Dechreuodd y cyfan pan ddeuthum ar draws bedd addurniedig wedi'i guddio gan fieri a danadl poethion yn un o'r mynwentydd lleol. Cefais fy nhristáu fod y person hwn, a oedd yn amlwg yn bwysig yn ei oes ei hun, wedi cael ei adael a'i anghofio. Dechreuais feddwl am y beddau yn y mynwentydd lleol ac es i ati i edrych ar gofnodion claddu a chofebion a phlaciau'n rhestru'r rhai a gwympodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn y trefi a'r pentrefi. Deuthum o hyd i gyfres o gerrig beddau Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad a beddau teulu gyda cherfiadau coffa ychwanegol arnynt, fel 'Hefyd er cof am ein mab David a fu farw yn Ypres yn 1914.' Penderfynais gofnodi'r holl bobl ym mynwentydd Cwm Tawe. Dechreuais gyda'r cofebion rhyfel yn Ystralyfera ac Ystradgynlais''.

Cysylltais â'r gangen leol o'r Lleng Brydeinig am gymorth a ffurfiodd 12 ohonom grŵp ymchwil. Galwom ein hunain yn yr Ystralyfera Electronic Archive Research Group neu'r YEARGroup yn fyr. Roedd yr aelodau eraill i gyd yn gyn-filwyr. Fi oedd yn gwneud y gwaith cofnodi gan nad oedd yr un o'r lleill yn defnyddio cyfrifiaduron. Dechreuwyd ar y gwaith yn 2000 ac adeiladu corff o wybodaeth am y beddau yn y cwm. Roeddent i gyd yn hen, yn eu 70au ac 80au. Maent i gyd wedi marw bellach, yn anffodus. Ond rwy'n parhau i gofnodi'r beddau, yn rhannol o barch tuag atyn nhw, ac yn rhannol am ei fod wedi dod yn ymchwil personol pwysig iawn.

**Sut gwnaethpwyd yr ymchwil**

Dechreuais drwy restru'r enwau ar y gofeb ryfel. Es i'r mynwentydd lleol i weld a allwn ddod o hyd i feddau'r bobl a restrid ar y gofeb ryfel. Chwiliais y pentref a'r dref am wybodaeth hefyd, gan edrych ar gofnodion ysgol, ymweld â'r llyfrgell, gofyn i grwpiau fel y Sgowtiaid a oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am y rhai a gwympodd. Ymwelais a lleoedd gwaith i weld a oedd ganddynt restr wroniaid o'u gweithwyr a aeth i ryfel. Tynnais luniau o'r holl feddau a'r gwahanol gofebion.

Es ar wefan Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad. Mae'n wefan am ddim ac mae llawer o wybodaeth arni. Gweithiais drwy bob un o'r enwau ar y gofeb ryfel gan geisio dod o hyd i gymaint o wybodaeth â phosib am bob person. Ysgrifennais bopeth i lawr gan adeiladu ffeil ar bob person. Dysgais mai'r hyn roedd ei angen arnaf oedd enw, rheng a rhif catrawd ar gyfer pob person. Mae'r rhif catrawd yn eithriadol o ddefnyddiol gan ei fod yn golygu y gallwch ddarganfod mwy o gofnodion y fyddin.

Edrychais hefyd drwy gofnodion y Cyfrifiad gan ddefnyddio gwefan Find my Past. Edrychais drwy'r papurau lleol am ysgrifau coffa, hysbysiadau marwolaeth ac adroddiadau ac erthyglau perthnasol.

Mae'r YEARGroup a minnau wedi casglu llawer iawn o wybodaeth. Mae gennyf dros 6000 o ffotograffau o feddau a bywgraffiadau byrion i lawer o'r bobl sydd wedi eu claddu ym mynwentydd Cwm Tawe. Mae gennyf ddiddordeb yn hanes cymdeithasol y bobl hyn i gyd, lle roeddent yn byw,

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos

pwy oedd eu teuluoedd, gyda phwy roeddent yn gweithio a'u rhan nhw yn y Rhyfel Byd. Rwy'n dal i ymchwilio gan ychwanegu mwy o ddata bob mis.

**Sut ddatblygodd y cyfan**

Mae gennyf wefan gyda gwybodaeth am y bobl sydd wedi'u claddu yn y mynwentydd a'r rhai sy'n cael eu coffáu ar gofebion mewn eglwysi a chapeli yng Nghwm Tawe. Yr un ar gyfer Ystradgynlais yw:

*www.ystradgynlais-wargraves.co.uk*

Mae'n rhestru'r enwau ar gofeb ryfel Ystradgynlais. Mae clicio ar enw'n mynd â chi i dudalen am yr unigolyn hwnnw, gyda gwybodaeth amdano. Efallai y bydd yno lun o'i fedd neu ei garreg goffa a llun oedd yn y papur newydd adeg ei farwolaeth. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys enwau rhai a gwympodd ac nad ydynt yn cael eu henwi ar y gofeb. Mae'n adnodd cymunedol, ar gael i bawb.

Crëwyd y wefan gan wirfoddolwyr o Grey Wolf Web Design.









## L.L.A.N.I. Ltd

Nia Griffiths a Nick Venti – L.L.A.N.I. Cyf, corff adfywio cymunedol Llanidloes a'r cyffiniau.

### Beth gynhyrchwyd

Datblygwyd dwy 'Daith y Rhyfel Mawr' i'w lawrlwytho sy'n eich arwain o gwmpas Llanidloes ac rydym wrthi'n ysgrifennu llyfr am y 116 o ddynion a enwir ar gofeb y dref. Mae'r daith yn mynd â'r defnyddwyr o gwmpas y dref ac i gefn gwlad gerllaw er mwyn darganfod mwy am fywydau a thirweddau'r bobl ar y gofeb. Mae'r llwybrau'n rhan o gyfres o deithiau a adwaenir fel Mid Wales Trail sy'n hybu gweithgareddau i dwristiaid ac ymwelwyr â chanolbarth Cymru ac maent i gyd ar gael fel apps Apple iOS ac Android.

Datblygwyd y teithiau o ganlyniad i'n hymchwil i'r gofeb ryfel ar Neuadd y Dref. Mae hen daid Nia yn un o'r dynion a goffeir ar y gofeb. Dechreuwyd gyda rhestr o enwau gan feddwl pwy oedd y bobl a pha wybodaeth oedd ar gael. Chwiliwyd ar-lein am wybodaeth ac yn raddol adeiladwyd ffeil ar gyfer pob un o'r enwau. Mae 116 o ddynion ar y gofeb ac rydym wedi dod o hyd i wybodaeth am tua 110 ohonynt.

*"Mae ymchwilio i'r wybodaeth wedi mynd yn gaethiwus. Rwyf wedi cael 22 sesiwn yn mynd drwy'r County Times yn chwilio am wybodaeth am y dynion ar y gofeb - mae hynny'n llawer o oriau - ond mae wedi bod yn werth chweil."*




*"Mae gennym dri Tom Jones ar ein cofeb ryfel ac roedd gennym chwe pherson posib. Weithiau nid oes posib mynd yn bell iawn gyda'r ymchwil ac mae'n rhaid derbyn efallai na ddewch chi o hyd i ragor o wybodaeth. Mae Walter Evans yn un o'n dynion dirgel ni, nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw beth amdano ef eto ..."*

www.Powys.gov.uk

Y dudalen nesaf

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn | Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Rhyfel Byd Cyntaf | Cofebion rhyfel | Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt | Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon | Beth i'w wneud â'r wybodaeth | Astudiaeth achos






www.Powys.gov.uk

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn
Coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf
Y Rhyfel Byd Cyntaf
Cofebion rhyfel
Cofnodi cofebion rhyfel a gofalu amdanynt
Ymchwilio i gofebion, y rhyfel a'i straeon
Beth i'w wneud â'r wybodaeth
Astudiaeth achos